



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Asesiad Strwythuredig 2017 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 311A2017-18



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Steve Stark, Andrew Strong, Dave Thomas a John Herniman.

Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd uchelgais clir ac mae'n ymrwymedig i wella gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru ond bydd angen iddo atgyfnerthu rhai agweddau ar lywodraethu, rheoli risg, rheoli ystadau a chynllunio'r gweithlu er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefnidir	4
Canfyddiadau allweddol	4
Argymhellion	12

Adroddiad manwl

Mae dulliau'r Bwrdd Iechyd o gyflawni arbedion yn ei helpu i wella'r sefyllfa ariannol yn gyffredinol. Fodd bynnag, bydd yn wynebu heriau ariannol cynyddol yn y dyfodol	14
--	----

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a threfniadau llywodraethu hirsefydlog a fydd, gyda rhai diwygiadau, yn ei helpu i wella gwasanaethau iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru	23
---	----

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau i reoli ei asedau megis asedau, y gweithlu a thechnoleg gwybodaeth ond bydd angen datblygu'r rhain ymhellach er mwyn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol	36
---	----

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2017	45
--	----

Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefnidir

- 1 Mae'r gwaith a wnawn fel rhan o'r asesiad strwythuredig yn helpu i lywio barn yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau.
- 2 Nododd ein gwaith yn 2016 fod dulliau llywodraethu a chynllunio'r Bwrdd Iechyd yn llywio cyfeiriad a pherfformiad y sefydliad mewn ffordd gadarnhaol, ond bod cyllid a pharhad aelodau annibynnol yn peri risg o hyd.
- 3 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r gwaith a wnaed gennym fel rhan o'r asesiad strwythuredig ar gyfer 2017 wedi adolygu agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd ac, yn arbennig, y cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Mae cyrff y GIG yn wynebu pwysau ariannol cynyddol a dyletswyddau ariannol heriol a nodir yn Neddf Cyllid GIG Cymru (Cymru) 2014. Felly, rydym hefyd wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol.
- 4 Rydym hefyd wedi defnyddio gwaith asesiad strwythuredig eleni i gasglu tystiolaeth i ategu sylwadau ar gyfer Cymru gyfan. Nodir sut mae cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyflwynir adroddiad ar wahân yn cynnwys y sylwadau hyn ddechrau 2018.
- 5 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau, arsylwadau yn ystod cyfarfodydd y bwrdd, cyfarfodydd pwyllgorau a chyfarfodydd grwpiau rheoli, ynghyd ag adolygiadau o ddata perfformiad a chyllid a dogfennau perthnasol.
- 6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei strategaeth Dyfodol Clinigol sy'n cynnwys adeiladu canolfan gofal arbenigol a chritigol newydd – sef Ysbyty Athrofaol y Grange. Bydd y datblygiad hwn yn newid ffurf gwasanaethau iechyd yn Neddwyrain Cymru a'r ffordd y cânt eu darparu a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli newid cadarn ar waith yn ogystal â threfniadau cymorth eraill er mwyn sicrhau y cânt eu darparu'n llwyddiannus. Rydym wedi nodi cryfderau'r trefniadau hyn yn yr adroddiad hwn ac wedi argymhell camau y dylai'r Bwrdd Iechyd eu cymryd er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach.

Canfyddiadau allweddol

- 7 Nodir isod ein casgliad cyffredinol o waith asesu strwythuredig 2017:
Mae gan y Bwrdd Iechyd uchelgais clir ac mae'n ymrwymedig i wella gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru ond bydd angen iddo atgyfnerthu rhai agweddau ar lywodraethu, rheoli risg, rheoli ystadau a chynllunio'r gweithlu er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

Cynllunio a rheoli ariannol

- 8 Wrth adolygu trefniadau rheoli a chynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd, nodwyd gennym fod dulliau'r Bwrdd Iechyd o gyflawni arbedion yn ei helpu i wella'r sefyllfa ariannol yn gyffredinol. Fodd bynnag, bydd yn wynebu heriau ariannol cynyddol yn y dyfodol.

Perfformiad ariannol – Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni canran sylweddol o'i arbedion ac mae pwysau parhaus o ran costau a diffyg o ran cyflawni'r arbedion sydd eu hangen yn her ariannol i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn

- 9 Er bod gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni canran sylweddol o'i arbedion arfaethedig cyffredinol, mae'n dibynnu ar arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gofyniad statudol i fantoli'r gyllideb a helpu i ateb y galw cynyddol am wasanaethau megis 'pwysau'r gaeaf'.
- 10 Ni fu lefel yr arbedion yn ddigon i wrthbwysu'r cynnydd mewn costau ac, o ganlyniad, mae'r sefyllfa o ran y diffyg sylfaenol yn gwaethygu. Yn 2016-17, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i arbed £15.2 miliwn a sicrhodd enillion cyfrifyddu gwerth £2 filiwn yn erbyn targed o £21.5 miliwn. Creodd hyn ddiffyg o £4.3 miliwn sydd wedi effeithio ar flwyddyn ariannol 2017-18. Mae'r diffyg hwn, ynghyd â phwysau ychwanegol o ran costau, wedi cynyddu'r diffyg sylfaenol ar gyfer 2017-18 o £12.8 miliwn (fel y'i nodwyd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2016-19) i £22.75 miliwn (fel y'i nodwyd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2017-20).
- 11 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2016-17 ac mae'n rhagweld y bydd yn gwneud hynny unwaith eto yn 2017-18. Ond, mae'r sefyllfa o ran y diffyg sy'n gwaethygu yn her ariannol fawr i allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb mewn cyfnod treigl o dair blynedd. Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o arian ychwanegol bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd dan bwysau i nodi lefelau uwch o arbedion cylchol yn y blyneddodod sydd i ddod.
- 12 Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi fframwaith mwy systematig ar waith ar gyfer sicrhau y caiff ei gynlluniau arbedion ariannol eu nodi ond nid yw'n gwbl effeithiol.
- 13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n nodi cyfleoedd i wneud arbedion ac yn ymgysylltu ar draws adrannau. Tua diwedd 2016-17 cydnabu'r Bwrdd Iechyd y byddai'n fuddiol pe bai mwy o gyfranogiad corfforaethol. Mewn ymateb, cafodd proses gynllunio 2017-18 ei harwain yn gorfforaethol a sefydlodd gofrestr o feysydd lle y gellid gwneud arbedion. Roedd y gofrestr yn seiliedig ar ddadansoddiad corfforaethol o ddata perfformiad gan gynnwys gwaith meincnodi, dadansoddi amrywiadau a sganio'r gorwel. O ganlyniad, mae'r broses yn fwy effeithlon ac mae'n darparu fframwaith i ddeiliaid cyllideb weithio a datblygu cynlluniau arbedion unigol oddi mewn iddo.
- 14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio canolbwyntio ar gynlluniau arbedion sy'n sicrhau arbedion cylchol, gyda 91% o'i gynlluniau ar gyfer 2016-17 yn sicrhau arbedion o'r

fath. Fodd bynnag, nodwn fod cyfran y cynlluniau arbedion cylchol ar gyfer 2017-18 wedi gostwng i 55%. Yn erbyn cefndir diffyg posibl sy'n gwaethygu, nid yw'r Bwrdd lechyd yn sicrhau digon o arbedion cylchol ac nid yw'n nodi newidiadau trawsnewidiol mwy o faint eto. Mae ei gynlluniau ariannol yn canolbwyntio ar ryddhau arbedion i'w hailfuddsoddi mewn gofal y tu allan i'r ysbyty ac osgoi cynnydd mewn costau yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n adeiladu ysbyty newydd, sef Ysbyty Athrofaol y Grange, y mae'n gobeithio y bydd yn cyflawni newidiadau trawsnewidiol sydd eu mawr angen ond ni ddisgwylir i'r ysbyty hwn fod yn weithredol a dechrau gwneud arbedion tan ddechrau 2021.

Monitro arbedion ariannol – Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau da ar waith ar gyfer monitro amserlenni ar gyfer arbedion, cyflwyno adroddiadau arnynt a chraffu arnynt

- 15 Mae gan y Bwrdd lechyd strwythur da ar waith i fonitro cynlluniau arbedion ar bob lefel o'r sefydliad ond mae lefel y manylion sydd ar gael i reolwyr gweithredol, aelodau gweithredol ac aelodau annibynnol yn amrywio.
- 16 Ar lefel weithredol mae gan y Bwrdd lechyd gyfarfodydd sefydledig gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Meddyginiaethau a chyfarfodydd Sicrwydd Is-adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn, cynhelir trafodaethau manwl yn seiliedig ar adroddiadau ar gyfer cynlluniau arbedion pob is-adran. Mae hyn yn darparu fforwm cadarn ar gyfer craffu ar berfformiad pob cynllun a nodi'n gynnar unrhyw gynlluniau sy'n tangyflawni ac y mae angen cymryd camau unioni mewn perthynas â hwy.
- 17 Ar lefel gorfforaethol, cyflwynir Adroddiadau Cyllid, sy'n cynnwys adran ar berfformiad o ran sicrhau arbedion a dadansoddiad o berfformiad cynlluniau arbedion â sgorau risg, i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd. Mae lefel y manylion a roddir i swyddogion gweithredol ac annibynnol yn y cyfarfodydd hyn ar lefel trosolwg strategol, sy'n aml yn dangos penawdau is-adrannol neu drawsbynciol. Mae'r lefel hon o wybodaeth yn ddigon i gyflawni dyletswydd gyffredinol i oruchwylio effaith arbedion ariannol ond nid yw'n ddigon i alluogi aelodau i graffu ymhellach ar gynlluniau arbedion unigol nac argymhell camau gweithredu i fynd i'r afael â thanberfformiad cynlluniau o'r fath.

Llywodraethu a sicrwydd

- 18 Wrth adolygu trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer llywodraethu corfforaethol a sicrwydd bwrdd nodwyd gennym fod gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir a threfniadau llywodraethu hirsefydlog a fydd, gyda rhai diwygiadau, yn ei helpu i wella gwasanaethau iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

Cynllunio strategol – Mae gan y Bwrdd Iechyd nodau uchelgeisiol i ail-lunio gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru, a ategir gan ei Gynllun Tymor Canolig Integredig a'i Strategaeth Dyfodol Clinigol; mae'n gweithio'n galed i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau ysbyty sy'n bodoli eisoes

19 Mae gan y Bwrdd Iechyd nodau uchelgeisiol i ail-lunio gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru, a ategir gan ei Gynllun Tymor Canolig Integredig a Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae hon yn lefel sylweddol o newid a bydd y Bwrdd Iechyd yn ei gyflawni'n raddol dros y pedair blynedd cyn i'w Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol, sef Ysbyty Athrofaol y Grange, agor ar ddechrau 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i ddatblygu cynlluniau manwl mewn perthynas â gofal sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau ysbyty sy'n bodoli eisoes.

Strwythur y sefydliad – Mae strwythur rheoli'r Bwrdd Iechyd wedi ateb y diben hyd yma ac efallai y bydd angen adolygu hyn ymhellach wrth iddo roi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ar waith

20 Mae strwythur rheoli sefydliadol y Bwrdd Iechyd wedi ateb y diben hyd yma. Ers i'r Bwrdd Iechyd gael ei sefydlu yn 2009, mae'r strwythur wedi llwyddo i ateb heriau megis effaith technoleg newydd, y galw cynyddol am wasanaethau, newidiadau i driniaethau, datblygiad gwasanaethau cymunedol a newidiadau i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu adolygiadau o'r trefniadau atebolrwydd rhwng ac o fewn Is-adrannau sy'n nodi bod atebolrwydd, ar y cyfan, yn glir ym mhob rhan o'r sefydliad. Fodd bynnag, er bod cyfrifoldebau wedi'u pennu i'r sawl sydd fwyaf addas i'w cyflawni o fewn y strwythur rheoli, mae cwmpas rheolaeth rhai swyddogion yn sylweddol ac efallai na fydd yn gynaliadwy. Felly, mae'n bwysig, wrth i'r Bwrdd Iechyd baratoi i ddarparu gofal iechyd mewn ffordd wahanol drwy ei Strategaeth Dyfodol Clinigol, ei fod yn sicr bod y strwythur rheoli yn addas i'r dyfodol.

Mae strwythurau'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gadarn a chânt eu gweinyddu'n dda

21 Gwelsom gydberthnasau da a gwaith da i gydlynu agendâu rhwng pwyllgorau a'r Bwrdd. Adolygodd y Bwrdd Iechyd y pwyllgorau a'u haelodaeth ym mis Mai a mis Medi 2017 er mwyn ystyried y newidiadau i aelodau annibynnol. Nodwyd gennym fod agendâu, adroddiadau eglurhaol a gwybodaeth ategol, weithiau yn rhy hir ac yn aml yn ymestyn i gannoedd o dudalennau. Wrth i aelodau annibynnol newydd ymsefydlu yn eu rolau mae'n bwysig eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol a rhywfaint o gyd-destun ac y tynnir sylw at wybodaeth bwysig er mwyn helpu i sicrhau gwaith craffu effeithiol a phenderfyniadau a wneir ar sail gwybodaeth. Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull gweithredu a'i fod yn parhau i weithio i'w wella ymhellach.

22 Caiff busnes y Bwrdd a'i bwyllgorau ei gynnal yn bennaf yn ystod sesiwn agored cyfarfodydd y gall aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol ynddi. Gall rhai adroddiadau gynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif ac ystyrir y rhain yn

ystod sesiwn gaeedig 'mewn pwyllgor' y cyfarfod. Er mwyn gwella tryloywder ymhellach, mae'n bosibl y byddai'n fwy priodol trafod rhai eitemau ar agendâu a allai fod wedi cael eu hystyried yn ystod sesiwn 'mewn pwyllgor' y cyfarfod yn y gorffennol, yn y sesiwn gyhoeddus. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymrwymedig i wella tryloywder a gwelsom Gadeirydd un pwyllgor yn herio pam nad oedd rhai adroddiadau yn cael eu hystyried yn ystod sesiwn gyhoeddus y cyfarfod.

- 23 Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n ymdrin â'r argymhellion a wnaed y llynedd mewn perthynas â llywodraethu a sicrwydd. Ceir crynodeb o gynnydd isod mewn perthynas â'r argymhellion yn y meysydd canlynol:
- 24 Sicrwydd bwrdd ac effeithiolrwydd – Ni chwblhawyd y cam gweithredu. Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi datblygu fframwaith sicrwydd bwrdd ac mae wedi dewis peidio â gwneud hynny nes i'r Cadeirydd a'r Bwrdd newydd gael eu penodi. Fodd bynnag, mae wedi dechrau mynd i'r afael ag anghenion datblygu aelodau newydd o'r Bwrdd drwy Raglen Datblygu Bwrdd.

Rheoli risg – Mae pwyllgorau yn cynnal trosolwg o risgiau allweddol ond gallent gael eu cefnogi'n well gan y wybodaeth a gânt

- 25 Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad yw ei drefniadau rheoli risg corfforaethol yn gwbl effeithiol ac mae wedi dechrau adolygu ei drefniadau. Yn ystod 2017, cafodd Bwrdd a'i bwyllgorau adroddiadau ac asesiadau risg yn rheolaidd er gwybodaeth. Fodd bynnag, er bod y cofrestrau risg yn cynnwys sgôr risg a champau lliniaru arfaethedig, nid oedd yn glir sut y byddai'r camau lliniaru yn lleihau'r sgôr risg a aseswyd, ac roedd rhai risgiau wedi aros ar yr un sgôr am sawl blwyddyn sy'n awgrymu nad oedd camau lliniaru yn cael fawr ddim effaith, os oeddent yn cael unrhyw effaith o gwbl. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol weithdy ym mis Hydref 2017 a hwyluswyd gan Gydwasanaethau'r GIG a'i Wasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn dechrau'r broses o resymoli ac ailwampio'r ffordd y mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli risg ac yn rhoi gwybod amdani. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ond dylai newidiadau arfaethedig helpu'r Bwrdd lechyd i roi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ar waith, drwy wella trefniadau rheoli risg.

Rheolaethau mewnol – Ar y cyfan, mae rheolaethau mewnol yn effeithiol o ran bodloni gofynion sicrwydd cyfredol ond mae angen gwella rhai agweddau, gan gynnwys y defnydd o waith archwilio clinigol, ymhellach

- 26 Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol yn y Bwrdd lechyd, ar y cyfan, er bod meysydd y gellid eu gwella. Cyflwynir pob adroddiad archwilio mewnol ac allanol a phob adroddiad gan y Gwasanaethau Gwrth-dwyll i'r Pwyllgor Archwilio a, lle y bo'n briodol, bwyllgorau eraill ac fe'u hystyriir ganddynt. Bydd pwyllgorau yn gofyn am adroddiadau dilynol neu'n cyfeirio materion at bwyllgorau eraill neu'r Bwrdd os byddant o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau i gael sicrwydd gan archwiliadau clinigol drwy wella'r ffordd y caiff gwaith

archwilio lleol ei gynllunio a rhoi gwybod i'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion am sicrwydd a roddwyd.

Llywodraethu gwybodaeth – Mae gan y Bwrdd Iechyd y sylfeini ar gyfer trefniadau llywodraethu gwybodaeth da ac, wrth iddo baratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd, bydd hyn yn heriol gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd

- 27 Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd un o hunanasesiadau Cyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott ym mis Ebrill 2017 ac asesodd fod ganddo lefel gydymffurfiaeth o 89%. Mae wedi nodi camau gwella mewn perthynas â Caldicott a hefyd o ran llywodraethu gwybodaeth sydd wrthi'n cael eu cyflawni yn 2017-18.
- 28 Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn 2016-17 ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol oedd 84% o ran ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 96% o ran ceisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data.
- 29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth cyn i Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 gael eu rhoi ar waith, ond er mwyn bydd bodloni gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithiol efallai y bydd goblygiadau o ran adnoddau. Bydd angen iddo sicrhau ei fod yn ymateb i geisiadau i gael gweld gwybodaeth statudol, y disgwylir iddynt godi ar ôl i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol gael eu rhoi ar waith, mewn modd amserol.

Rheoli perfformiad – Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli perfformiad mewn modd gweithredol a gall ddangos perfformiad cadarnhaol mewn rhai meysydd

- 30 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro perfformiad yn rheolaidd ac mae wedi gwella ei brosesau ers ein Hasesiad Strwythuredig diwethaf. O fewn is-adrannau, caiff rheolwyr eu dwyn i gyfrif am sicrhau gwell perfformiad ac mae'r Tîm Gweithredol yn cynnal trosolwg strategol ac yn herio perfformiad ymhellach.

Ffactorau eraill sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

- 31 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau i reoli ei adnoddau megis asedau, y gweithlu a thechnoleg gwybodaeth ond bydd angen datblygu'r rhain ymhellach er mwyn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

Rheoli newid – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau er mwyn helpu i wella gwasanaethau ac mae'n meithrin gallu o ran rheoli rhaglenni a newid er mwyn cyflawni ei Strategaeth Dyfodol Clinigol

- 32 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli newid drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Mae ganddo Becyn Cymorth ar gyfer Arwain a Rheoli'r Broses o Newid y Gweithlu. Mae Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan wedi datblygu dros amser ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi trefniadau eraill ar gyfer cyflawni newidiadau ar waith sy'n gymesur â maint y newidiadau arfaethedig. Er enghraifft, mae wedi sefydlu Bwrdd Cyflawni i gydgyssylltu a rheoli'r gwaith o roi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ar waith. Mae hyn wedi helpu i gyflawni ei amcanion corfforaethol. Er mwyn cyflawni ei Strategaeth Dyfodol Clinigol a'i Gynllun Tymor Canolig Integredig, bydd yn dod yn fwyfwy pwysig ei fod yn adeiladu ar ei ddulliau gweithredu presennol gan sicrhau bod gan y sefydliad ddigon o adnoddau a sgiliau i reoli newid drwy ddefnyddio dulliau a methodolegau rheoli prosiect cydnabyddedig a'i fod yn gwerthuso llwyddiant ei drefniadau ar gyfer rheoli newid yn ymarferol.
- 33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau diweddarau Cynlluniau Newid Gwasanaethau er mwyn helpu i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Nod Tîm Cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yw gwella cysondeb o ran cynnwys y cynlluniau hyn ac mae'n bwriadu rhoi canllawiau i reolwyr ar sut i'w cwblhau yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2017.
- 34 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ymdrin â'r argymhellion a wnaed y llynedd mewn perthynas â chyflawni newid yn effeithiol. Ceir crynodeb o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran argymhellion a wnaed yn y meysydd canlynol:
- Mabwysiadu dull rheoli newid ffurfiol y cytunwyd arno a datblygu galluoedd staff craidd ar gyfer y rhai sy'n rheoli newid – Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull rheoli newid safonol eto. Ni chwblhawyd y cam gweithredu.
 - Datblygu gallu a seilwaith i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, Cynlluniau Newid Gwasanaethau a'r ganolfan gofal arbenigol a chritigol. Mae camau gweithredu yn mynd rhagddynt ond nis chwblhawyd eto. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio staff ychwanegol er mwyn helpu i reoli newid, wedi datblygu strwythur Bwrdd Cyflawni ar gyfer y Strategaeth Dyfodol Clinigol ac mae Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan yn parhau i ystyried cyfleoedd ar gyfer rheoli newid.

Rheoli'r gweithlu – Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y pwysau sydd ar ei weithlu ac yn mynd i'r afael â meysydd allweddol megis absenoldeb oherwydd salwch a gorddefnydd o staff asiantaethau a staff locwm. Nid yw wedi datblygu cynllun ar gyfer gweithlu'r sefydliad na nodi anghenion staff yn y dyfodol er mwyn cyflawni ei fodel Dyfodol Clinigol

35 Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y pwysau sydd ar ei weithlu ac yn mynd i'r afael â meysydd allweddol megis absenoldeb oherwydd salwch a gorddefnydd o staff asiantaeth a staff locwm. Nid yw wedi datblygu cynllun ar gyfer gweithlu'r sefydliad sy'n nodi anghenion staff yn y dyfodol yn seiliedig ar fodel clinigol wedi'i ddiweddarau sydd ei angen i gyflawni dull Strategol Dyfodol Clinigol.

Asedau ac ystadau – Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ystadau nac arolygon cyfredol o gyflwr ei adeiladau. Felly, nid yw penderfyniadau ynghylch caffael, cynnal a chadw a gwaredu ei ystad yn cael eu rheoli'n strategol

36 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ystadau ac ar adeg cynnal ein Hasesiad Strwythuredig nid oedd ganddo gofnodion cywir cyfredol o gyflwr ei adeiladau. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod gwaith wedi'i wneud i ddiweddarau'r wybodaeth am gyflwr stoc yr ystad. Wrth i'r Bwrdd Iechyd baratoi ar gyfer agor Ysbyty Athrofaol y Grange a gwasanaethau cymunedol newydd, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn deall ei bortffolio presennol er mwyn ei helpu i fapio anghenion yn y dyfodol a chynllunio yn unol â hynny.

Gwaith partneriaeth – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol drwy ei Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth a thrwy ymgysylltu, er enghraifft, â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

37 Mae gwaith partneriaeth wedi hen ymsefydlu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn sefydledig ac yn rhoi amgylchedd gwaith gwerthfawr lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda gweithwyr Iechyd proffesiynol eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod gweithredol o'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac mae ei Bwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Llesiant yn cynnal trosolwg o rolau'r Bwrdd Iechyd o fewn trefniadau partneriaeth. Dengys Strategaeth Ymgysylltu 2014 y Bwrdd Iechyd ymrwymiad clir i wrando ar ddinasyddion a staff ac ymgysylltu â hwy, er bod cyfeiriadau at 'ddigwyddiadau gwrandao' yn 2015 yn awgrymu y byddai'n fuddiol adolygu a diweddarau'r strategaeth hon.

TGCh a thechnoleg – Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau parhaus sy'n gysylltiedig â darparu ac ariannu gwasanaethau technoleg gwybodaeth

38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau parhaus sy'n gysylltiedig â darparu ac ariannu gwasanaethau technoleg gwybodaeth. Mae ei Raglen Amlinellol Strategol ar gyfer 2016-2021 yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn ag adnoddau nad ydynt yn ddilys mwyach, mae'n parhau i weithredu systemau a etifeddwyd ganddo o'r

cyfnod cyn i'r Bwrdd Iechyd gael ei greu yn 2009 ac mae adnoddau wedi dod o dan bwysau wrth i'r Adran Wybodeg weithredu i ddiogelu'r Bwrdd Iechyd rhag risgiau megis ymosodiadau seiber.

Argymhellion

- 39 Nodir yr argymhellion sy'n deillio o asesiad strwythuredig 2017 yn **Arddangosyn 1**. Bydd hefyd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nas cwblhawyd eto.
- 40 Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn ei gynnwys yn **Atodiad 1** unwaith y bydd wedi'i gwblhau ac wedi'i ystyried gan bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2017

Argymhellion 2017	
Monitro ac adrodd ar gynlluniau arbedion	
A1	Dylai'r Bwrdd Iechyd roi mwy o fanylion i swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni cynlluniau arbedion. Dylai hyn eu helpu i graffu ar gynlluniau sy'n methu'r targed a'u herio'n ddigonol.
Papurau'r Bwrdd a'i bwyllgorau	
A2	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth briodol er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau cadarn a chraffu'n effeithiol drwy wneud y canlynol: <ol style="list-style-type: none">sicrhau bod digon o amser i ystyried eitemau ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd;sicrhau bod adroddiadau yn tynnu sylw at wybodaeth bwysig sy'n berthnasol i gylch gwaith y Bwrdd neu ei bwyllgorau;darparu gwybodaeth ychwanegol neu wybodaeth gefndir; asicrhau bod adroddiadau ar gyfer agendâu o hyd rhesymol fel y gellir disgwyl yn rhesymol i aelodau eu darllen cyn y cyfarfod.
Rheoli risg	
A3	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli risg er mwyn sicrhau y caiff risgiau corfforaethol eu huwchgyfeirio a'u rheoli'n briodol drwy wneud y canlynol: <ol style="list-style-type: none">datblygu ei adroddiadau risg cyfredol er mwyn sicrhau y caiff cyd-destun y risg a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ei rheoli eu nodi'n glir; aadolygu'r sgôr risg yn seiliedig ar y camau lliniaru.
Rheolaeth fewnol	
A4	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod archwiliadau clinigol yn rhoi sicrwydd o fewn fframwaith sicrwydd, sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad.

Argymhellion 2017

Technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adnoddau a ddyrennir i feysydd technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth yn darparu digon o adnoddau i gyflawni cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Rheoli ystadau

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Strategaeth Ystadau sy'n adlewyrchu cyflwr presennol ei adeiladau ac yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.

Ymgysylltu

A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu, adnewyddu a diweddarau'r Strategaeth Ymgysylltu – 'Hearing and acting upon the voice of our staff and citizens'.

Adroddiad manwl


Mae dulliau'r Bwrdd Iechyd o sicrhau arbedion yn helpu i wella'r sefyllfa ariannol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n wynebu heriau ariannol cynyddol yn y dyfodol

- 41 Mae gan y Bwrdd Iechyd uchelgais clir ac mae'n ymrwymedig i wella gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru ond bydd angen iddo atgyfnerthu rhai agweddau ar lywodraethu, rheoli risg, rheoli ystadau a chynllunio'r gweithlu er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Nodir y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.
- 42 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae ein gwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rydym wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Roedd archwiliad manwl o gynlluniau arbedion unigol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y dull gweithredu ym maes rheoli meddyginiaethau ac mae hyn wedi llywio ein barn gyffredinol ar effeithiolrwydd dull y sefydliad o gynllunio a chyflawni arbedion. Nodir ein canfyddiadau isod.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni canran sylweddol o'i arbedion ac mae pwysau parhaus o ran costau a diffyg o ran cyflawni'r arbedion sydd eu hangen yn her ariannol i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i raddau helaeth i gyflawni ei arbedion arfaethedig yn y ddwy flynedd diwethaf

- 43 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu targedau arbedion cymharol uchelgeisiol ond cyflawnadwy ar y cyfan. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fodloni'r disgwyliadau hynny ([Arddangosyn 2](#)).

Arddangosyn 2: crynodeb o gyflawni cynlluniau arbedion 2012-13 i 2016-17



Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

- 44 Ym mis 7 ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd wedi cyflawni 95% o'r arbedion a nodwyd ganddo erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hefyd wedi nodi ei fod wedi arbed £11.1 miliwn yn erbyn cynllun hyd yma i arbed £11.6 miliwn erbyn mis 7.
- 45 Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael dyraniad adnoddau referniw gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys tybiaeth. Ar hyn o bryd, mae'n tybio y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni arbedion ac yn sicrhau cydbwysedd ariannol o ran gwariant o fewn ei ddyraniad. Wedyn arbedion parhaus sy'n rhyddhau arian parod o rhwng 1% ac 1.5%.
- 46 Cydymffurfiodd y Bwrdd Iechyd â'r gofyniad statudol hwn ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014 a 2017. Er bod arbedion wedi cyfrannu at fodloni'r gofyniad statudol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddibynnu ar arian ychwanegol a gaiff ei negodi â Llywodraeth Cymru drwy'r flwyddyn. Er enghraifft yn 2016-17, cafodd y Bwrdd Iechyd arian ychwanegol gwerth £9.9 miliwn, a'i helpodd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno.

Bu rhywfaint o amrywiad o ran llwyddiant cynlluniau arbedion

- 47 Er ei bod yn gadarnhaol bod gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni arbedion, mae canran uchel o gynlluniau arbedion unigol wedi bod yn tangyflawni neu'n gorgyflawni yn erbyn yr arbedion arfaethedig. Er enghraifft yn 2016-17, o'r 108 o gynlluniau arbedion, cyflawnodd 21 o gynlluniau arbedion a oedd £10,000 neu fwy uwchlaw'r targed a chyflawnodd 22 o gynlluniau arbedion a oedd dros £10,000 yn llai na'r targed. Mae [Arddangosyn 3](#) yn nodi dadansoddiad cryno a luniwyd gan y Bwrdd Iechyd ar achosion o orgyflawni a thangyflawni yn erbyn ei gynlluniau arbedion.

- 48 Ar gyfer 2016-17, nododd y Bwrdd Iechyd 108 o gynlluniau arbedion gwerth cyfanswm o £15.2 miliwn. O'r arbedion hyn, tangyflawnodd 30 o gynlluniau o gyfanswm o £1.3 miliwn a gorgyflawnodd 32 o gynlluniau o gyfanswm o £1.3 miliwn.

Arddangosyn 3: crynodeb o gyflawni cynlluniau arbedion 2016-17

Categori	Nifer y cynlluniau a nodwyd	Swm y cynlluniau arfaethedig (£'miliwn)	Swm a gyflawnwyd mewn gwirionedd (£'miliwn)	Swm yr amrywiant (£'miliwn)
Cynlluniau a nodwyd a orgyflawnodd o hyd at £10,000	10	0.3	0.4	0.1
Cynlluniau a nodwyd a orgyflawnodd o rhwng £10,001 a £50,000	15	4.9	5.2	0.3
Cynlluniau a nodwyd a orgyflawnodd o fwy na £50,000	7	1.4	2.3	0.9
Cynlluniau a nodwyd a gyflawnodd y swm arfaethedig	46	2.6	2.6	0
Cynlluniau a nodwyd a dangyflawnodd o hyd at £10,000	8	1.4	1.4	0
Cynlluniau a nodwyd a dangyflawnodd o rhwng £10,001 a £50,000	13	1.1	0.8	-0.3
Cynlluniau a nodwyd a dangyflawnodd o fwy na £50,000	9	3.5	2.5	-1.0
Cyfanswm	108	15.2	15.2	0

Ffynhonnell: Adroddiad ar arbedion mis 12 2016-17 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Nid yw lefel yr arbedion a gyflawnwyd wedi bod yn ddigon i ddileu'r diffyg i gyd


- 49 Dangosodd Cynllun Tymor Canolig Integredig¹ y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-19 fod disgwyl diffyg sylfaenol o £12.8 miliwn ar ddechrau'r cyfnod 2017-18. Fel y nodwyd yn **Arddangosyn 2** uchod, mae gan y Bwrdd Iechyd hanes eithaf da o gyflawni cynlluniau arbedion yn erbyn ei dargedau. Ar gyfer 2016-17, sicrhaodd y Bwrdd Iechyd arbedion gwerth £15.2 miliwn o gynlluniau a nodwyd a £2 filiwn o enillion

¹ Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gynllun treigl tair blynedd sy'n cynnwys adran sy'n nodi alldro rhagamcanol a thybjaethau ariannol y Bwrdd Iechyd ac yn dangos pob un o'r tair blynedd a gwmpesir gan y cynllun. Fel cynllun treigl, caiff ei ddiweddarau yn flynyddol.

cyfrifyddu yn erbyn targed o £21.5 miliwn yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Arweiniodd hyn at ddiffyg o £4.3 miliwn.

- 50 Er gwaethaf yr arbedion a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2016-17, cynyddodd y diffyg sylfaenol a gariwyd ymlaen i 2017-18 £10 miliwn i £22.75 miliwn. Gyda phwysau ychwanegol o ran costau ar gyfer 2017-18 cyfanswm y diffyg a nodwyd ar gyfer y flwyddyn honno oedd £30.4 miliwn. Dengys **Arddangosyn 4** y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud o ran cyflawni'r targed hwn.

Arddangosyn 4: crynodeb o berfformiad cynlluniau arbedion 2017-18 ym mis 7



Ffynhonnell: Adroddiad ar arbedion mis 7 2017-18 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Her Ariannol yn ôl y Cynllun Tymor Canolig Integredig – sef cyfanswm yr arbedion sydd eu hangen fel y'u nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Mae Gwyrdd yn dynodi bod y Bwrdd Iechyd yn disgwyl i'r arbedion gael eu cyflawni.

Mae Melyn yn dynodi na fydd y Bwrdd Iechyd, o bosibl, yn cyflawni'r holl arbedion.

Byddai Coch yn dynodi cynlluniau nad yw'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl eu cyflawni ac nid oes unrhyw arbedion.

Mae Heb ei nodi yn dynodi nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau arbedion eto.

- 51 Ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi 271 o gynlluniau arbedion gyda chyfanswm gwerth o £20.8 miliwn. Ym mis 7, rhagamcanodd y Bwrdd Iechyd:

- y byddai 65 o gynlluniau yn tangyflawni o gyfanswm o £2.5 miliwn; ac
- y byddai 28 o gynlluniau yn gorgyflawni o gyfanswm o £1.3 miliwn.

- 52 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 4**, ym mis 7, mae cynlluniau arbedion heb eu nodi gwerth £9.6 miliwn sydd eu hangen i gyflawni alldro arfaethedig y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar ddiwedd y flwyddyn, sef cynnydd o £2.1 miliwn ers mis 5.

53 Felly, er bod cynlluniau arbedion yn cyfrannu at leihau'r diffyg rhagamcanol, mae'r ffaith nad yw'r Bwrdd lechyd yn cyflawni pob un o'i gynlluniau arbedion, ynghyd â phwysau parhaus o ran costau a thwf mewn costau, yn golygu nad yw'r Bwrdd lechyd yn mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol yn llawn. Hyd at fis 7 2017-18 mae'r Bwrdd lechyd wedi cael £15 miliwn o arian cylchol gan Lywodraeth Cymru er mwyn ei helpu i geisio mantoli'r gyllideb ar gyfer 2017-18 ond nodwyd bod diffyg gweddillol o £1.440 miliwn ym mis 7 sy'n rhoi mwy o bwysau ar y Bwrdd lechyd i nodi mwy o arbedion.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi fframwaith mwy systematig ar waith ar gyfer sicrhau y caiff ei gynlluniau arbedion ariannol eu nodi ond nid yw'n gwbl effeithiol

54 Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd nodi cynlluniau arbedion er mwyn iddo allu anelu ar wario o fewn ei ddyraniad adnoddau refeniw. Fel arfer, caiff targedau arbedion eu pennu ar lefel uchel yn seiliedig ar ganran o wariant a gaiff eu rhaedru i lawr i ddeiliaid cyllideb er mwyn iddynt nodi'r cynlluniau arbedion unigol. Mae'r gwaith o lunio a datblygu'r cynlluniau hyn yn rhan annatod o broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu rhwydwaith o bartneriaid busnes mewn gwahanol adrannau er mwyn helpu deiliaid cyllideb i ddatblygu cynlluniau a'u rhoi ar waith. Penodir arweinydd o bob un o'r adrannau hyn, sy'n cwmpasu meysydd megis Cyllid, Caffael, y Gweithlu, Cynllunio, Gwybodeg, Rheoli Meddyginiaethau ac Arweinwyr Clinigol, i bob Is-adran. Felly, mae'r broses o ddatblygu cynlluniau yn un gydgysylltiedig ar draws y Bwrdd lechyd ac mae'r partneriaid busnes hyn yn bresennol mewn cyfarfodydd monitro a gynhelir i gefnogi'r broses gyflawni. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn sôn am welliannau a wnaed gan y Bwrdd lechyd yn y broses o gynllunio arbedion. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n mynd ati i nodi cyfleoedd i wneud arbedion ac ymgysylltu ag adrannau.

55 Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n nodi cyfleoedd i wneud arbedion drwy fabwysiadu dull 'o'r brig i'r bôn', 'o'r gwaelod i fyny' o nodi arbedion. Tua diwedd 2016-17, cydnabu'r Bwrdd lechyd y byddai'n fuddiol pe bai mwy o gyfranogiad corfforaethol yn y broses ar gyfer nodi cynlluniau arbedion unigol. Felly, ar gyfer 2017-18, arweiniwyd y broses gynllunio yn gorfforaethol (o'r brig i'r bôn) ac arweiniodd at sefydlu cofrestr o feysydd lle y gellid gwneud arbedion, yn seiliedig ar ddadansoddiad corfforaethol o ddata perfformiad gan gynnwys gwaith meincnodi, dadansoddi amrywiadau a sganio'r gorwel. O ganlyniad, mae'r broses o gynllunio arbedion yn fwy effeithlon a darparodd fframwaith lle y gall deiliaid cyllideb weithio a datblygu cynlluniau arbedion unigol.

56 Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn mynd ati mewn ffordd gydweithredol i nodi cynlluniau arbedion gyda sefydliadau eraill megis Byrddau lechyd eraill, grwpiau effeithlonrwydd cenedlaethol a meddygfeydd a'u rhoi ar waith er mwyn nodi a llunio cynlluniau arbedion. Yn benodol, cynrychiolir y Bwrdd lechyd yng nghyfarfod


Fferylliaeth Cymru Gyfan sydd newydd ei ffurfio. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i rannu gwybodaeth ac arfer da er mwyn ei helpu i nodi cynlluniau arbedion ychwanegol sy'n gyson â'r sector Iechyd ehangach a'u rhoi ar waith.

- 57 Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredu lle mae penaethiaid is-adrannol yn cyflwyno cynlluniau ac adroddiad diweddar ar sail dreigl drwy'r flwyddyn. Mae lefelau presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn wedi amrywio yn y gorffennol, gyda rhai is-adrannau yn dangos lefelau presenoldeb gwael. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb is-adrannau wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn sicrhau mwy o gefnogaeth gan swyddogion adrannol a deiliaid cyllideb ac yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer trafodaethau trawsadrannol ynghylch nodi, gweithredu a monitro cynlluniau.

Mae cynlluniau arbedion y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ond nid yw wedi datblygu cynlluniau trawsnewidiol mwy o faint eto er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol


- 58 Mae'r broses o gynllunio arbedion wedi'i hintegreiddio â phroses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'n ofynnol i bob is-adran gyflwyno ffurflen sy'n nodi'r gyllideb, y rigiau a'r cynlluniau arbedion a nodwyd yn fanwl. Er bod hyn yn arfer da nodwn, pan gafodd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2017-18 i 2019-20 ei gwblhau'n derfynol a'i gyflwyno, nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r holl gynlluniau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r diffyg yn llawn.
- 59 Mae cynlluniau arbedion sydd wedi'u datblygu fel rhan o broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys swyddogion o wahanol adrannau, gan sicrhau y caiff y cymysgedd a'r lefel briodol o adnoddau eu hystyried a'u darparu o fewn cyfyngiadau adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd.
- 60 Wrth lunio cynlluniau arbedion, mae'n bwysig ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol ac effaith y cynlluniau hynny. Dylai cyflawni mwy o gynlluniau cylchol sicrhau bod llai o bwysau ar y gyllideb yn ystod y blynyddoedd dilynol. Nodwyd gennym fod 91% o'r cynlluniau arbedion a nodwyd yn 2016-17 yn ymwneud ag arbedion cylchol (**Arddangosyn 5**) ond bod y ganran hon wedi gostwng i 55% yn 2017-18 (**Arddangosyn 6**).

Arddangosyn 5: dadansoddiad o'r arbedion a gyflawnwyd yn 2016-17 rhwng rhai cylchol ac anghylchol



Ffynhonnell: Adroddiad ar arbedion mis 12 2016-17 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Arddangosyn 6: dadansoddiad o'r arbedion a gyflawnwyd ym mis 7 yn 2017-18 rhwng rhai cylchol ac anghylchol



Ffynhonnell: Adroddiad ar arbedion mis 7 2017-18 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

61 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-18 yn nodi diffyg sylfaenol sy'n cynyddu a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion ychwanegol er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol. At hynny, mae'r cynllun yn nodi diffyg o £15 miliwn ar gyfer 2017-18 a bod angen adfer y sefyllfa hon erbyn 2019-20. Er gwaethaf yr heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu o ran cyflawni arbedion y flwyddyn bresennol, mae risg na fydd arbedion nac arian gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gallu unioni'r diffyg heb newidiadau trawsnewidiol ehangach i'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer monitro cynlluniau arbedion a chraffu arnynt

Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur da ar waith i fonitro cynlluniau arbedion ar bob lefel o'r sefydliad ond mae lefel y wybodaeth sydd gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cyfyngu ar eu gallu i graffu ar gynlluniau sy'n tanberfformio

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei broses adrodd ariannol ac mae systemau ar waith i fonitro'r ffordd y cyflawnir arbedion

62 Yn 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cronfa ddata o gynlluniau arbedion yn lle'r taenlenni unigol roedd is-adrannau yn eu defnyddio. Cafodd ei threialu mewn

un is-adran ac, yn sgil llwyddiant y treial, mae wedi'i chyflwyno ers hynny ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob cynllun. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr i gofnodi rhesymau dros newid sgoriau risg cynlluniau arbedion er mwyn sicrhau bod y broses fonitro yn fwy effeithlon ac effeithiol.

- 63 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth ychwanegol i'w adroddiadau Cyllid misol hefyd, ar ffurf tabl a data sy'n dangos cynnydd cynlluniau arbedion wedi'i raddio yn ôl risg. Mae hyn yn nodi lefel y cyflawniad ac yn rhoi eglurder ynghylch unrhyw fwlch ariannol. Cyflwynir y wybodaeth ychwanegol hon ar lefel is-adrannol ac fe'i cynhwysir yn yr adroddiadau a gyflwynir i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd.
- 64 Mae rheolwyr gweithredol yn cyfarfod bob mis yn eu timau i graffu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni arbedion fesul cynllun. Maent yn penderfynu pa gamau unioni sydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni lefel yr arbedion y cytunwyd arni. Allbwn y cyfarfodydd hyn yw cyfres glir o gamau gweithredu i gyflawni'r camau unioni angenrheidiol. Gwelsom dystiolaeth o drafodaethau o'r fath yng nghyfarfod y tîm gweithredol, cyfarfod y tîm gweithrediadau rheoli meddyginiaethau ac mewn cyfarfodydd sicrwydd is-adrannol. Gwelsom hefyd dystiolaeth, lle roedd camau unioni wedi'u nodi ac wedi'u cymryd, fod hyn wedi gwella'r sefyllfa ragamcanol o ran cyflawni cynlluniau arbedion.

Er bod y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael gwybodaeth am y sefyllfa ariannol a pherfformiad yn gyffredinol, nid yw adroddiadau yn cynnwys digon o fanylion am gynlluniau arbedion penodol sy'n tanberfformio. Felly, cyfyngir ar allu'r Aelodau i graffu ar y broses gyflawni a dwyn Aelodau Gweithredol i gyfrif

- 65 Ar lefel gorfforaethol, mae cyfarfodydd misol a deufisol megis Bwrdd y Rhaglen Rheoli Meddyginiaethau, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd Gweithredol, yn darparu lefel ychwanegol o waith craffu. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd yn cyfarfod ag Aelodau gweithredol a'r Prif Weithredwr er mwyn trafod y sefyllfa ariannol gyffredinol mewn is-adrannau yn seiliedig ar berfformiad ariannol yng nghanol ac ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys cyflawni arbedion. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae staff yr Adran Cyllid, Arweinwyr Is-adrannol ac aelodau o staff eraill yn cyfathrebu â'i gilydd yn anffurfiol o ddydd i ddydd er mwyn monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbedion.
- 66 Mae lefel y manylion yn yr adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd Gweithredol ar lefel uwch, ar lefel is-adrannol fel arfer, ac felly nid ydynt yn darparu manylion ar lefel cynllun. Nodwyd gennym fod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael gwybodaeth ychwanegol ar ffurf data mewn tablau a graffiau ond, yn y ddau achos, dim ond manylion naratif lefel uchel a ddarperir am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau. O ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau arbedion ac erbyn cefndir diffyg sylfaenol sylweddol, efallai y bydd yn fuddiol i'r Bwrdd Iechyd roi mwy o fanylion i'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Dylai hyn

gynnwys gwybodaeth am unrhyw gynlluniau sy'n tanberfformio a'r cynigion ar gyfer camau unioni, er mwyn i swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol allu craffu ymhellach ar gynlluniau a chael sicrwydd y gellir eu cyflawni.

Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir a threfniadau llywodraethu hirsefydlog a fydd, gyda rhai diwygiadau, yn ei helpu i wella gwasanaethau iechyd yn Ne-ddwyrain Cymru

- 67 Mae'r gwaith a wnaed gennym fel rhan o'r asesiad strwythuredig ar gyfer 2017 wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio, effeithiolrwydd y strwythurau llywodraethu, trefniadau llywodraethu gwybodaeth a threfniadau rheoli perfformiad. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

Mae gan y Bwrdd Iechyd nodau uchelgeisiol i ail-lunio gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru, a ategir gan ei Gynllun Tymor Canolig Integredig a'i Strategaeth Dyfodol Clinigol; mae'n gweithio'n galed i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau ysbyty sy'n bodoli eisoes

- 68 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau sy'n helpu i gyflawni rhaglenni newid strategol sy'n sail i'w Gynllun Tymor Canolig Integredig. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 69 Mae Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd, a ddatblygwyd yn 2004 i ddechrau, yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer moderneiddio gwasanaethau clinigol. Mae'n nodi bod Dyfodol Clinigol yn rhaglen a berchenogir ac a arweinir yn glinigol '... that seeks to rebalance the provision of care in Gwent, enabling citizens to play a more active role in their well-being, providing more services in a community setting (using its Neighbourhood Care Networks as the foundation for this), working with partners to develop integrated teams that work at a locality level to support individuals' independence and recovery, and ensuring world class hospital services for people when they need them'.
- 70 Bydd y broses o gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol gan gynnwys adeiladu a chomisiynu Ysbyty Athrofaol y Grange, yn cynnwys newidiadau sylweddol pellach i wasanaethau iechyd lleol sy'n bodoli eisoes. Caiff y gwasanaethau eu cyflwyno'n raddol dros y pedair blynedd nesaf, a disgwylir i'r broses gael ei chwblhau yn 2021. Bydd y rhaglen newid fawr hon yn effeithio ar staff, adeiladau, systemau, prosesau, partneriaid a chleifion yn ystod y broses o'i gweithredu. Mae cynlluniau i gyflawni'r newidiadau hyn yn mynd rhagddynt ers amser, er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi

cwblhau rhai agweddau pwysig ar ei gynlluniau sy'n ymwneud â gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau ysbyty sy'n bodoli eisoes eto.

- 71 Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol yn nodi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd a'i ffyrdd o weithio, cynaliadwyedd gwasanaethau allweddol a blaenoriaethau o ran newid gwasanaethau ar gyfer y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2020. Cafodd gymeradwyaeth weinidogol yn unol â gofynion Fframwaith Cynllun GIG Cymru a'r dyletswyddau a nodir gan adran 175(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Lywodraeth Cymru ar 16 Mehefin 2017. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2018-21 pan ddisgwylir i'r Strategaeth Dyfodol Clinigol gael ei weithredu'n llawn. Bydd ei waith cynllunio manwl yn helpu i lywio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd hwn.

Mae strwythur rheoli'r Bwrdd Iechyd wedi ateb y diben hyd yma ac efallai y bydd angen adolygu hyn ymhellach wrth iddo roi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ar waith

- 72 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o strwythur a gallu sefydliadol presennol y Bwrdd Iechyd yng nghyd-destun cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd a newidiadau arfaethedig i wasanaethau gofal iechyd.
- 73 Yn ein hasesiad strwythuredig yn 2016, nodwyd gennym fod y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu ymgynghorwyr i gynnal adolygiad o atebolrwydd. Mewn ymateb i'r adolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â gwella prosesau, llywodraethu a sicrhau bod llinellau atebolrwydd o ran gwneud penderfyniadau yn glir.
- 74 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu ei strwythur rheoli sefydliadol er mwyn darparu ar gyfer technolegau newydd, y galw cynyddol am wasanaethau, newidiadau i driniaethau ataliol, datblygiad gwasanaethau cymunedol a newidiadau o ran blaenoriaethau Llywodraeth Cymru dros amser. Fodd bynnag, wrth i'r Bwrdd Iechyd baratoi i roi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ar waith, mae'n bwysig ei fod yn sicr bod ganddo'r sgiliau a'r strwythur rheoli cywir sy'n addas at y diben.

Mae strwythurau'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gadarn, ond nid yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn effeithiol bob amser

- 75 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd, ei strwythurau llywodraethu a'i drefniadau sicrwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 76 Bodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ofnion adrodd blynyddol. Yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017, cyflwynodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016/2017, ei Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-2017 a'i Ddatganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2016-2017. Mae Datganiad Llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 yn rhoi trosolwg o'r fframwaith llywodraethu a sicrwydd sydd ar waith. Mae hyn yn cynnwys y 'Rheolau sefydlog a phwerau a gedwir yn ôl ac a ddirprwyir' a 'Chyfarwyddiadau ariannol sefydlog' sy'n nodi'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn

cynnal ei fusnes. Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo ym mis Ionawr 2017, a oedd yn ymwneud â newid i derfynau ariannol ar gyfer Cyfarwyddwr Cyswllt Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd sy'n gweithredu fel yr arweinydd gweithredol ar gyfer pecynnau gofal iechyd parhaus, ond nid yw'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi newid ers 2014.

- 77 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dryloyw o ran y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes a'i brosesau gwneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal busnes mewn sesiynau agored y gall aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol ynddynt. Ystyrir rhai eitemau, megis rhai cyfrinachol neu sensitif, yn y rhan gaeedig 'mewn pwyllgor' o'r cyfarfodydd. Er mwyn gwella tryloywder ymhellach, mae'n bosibl y byddai'n fwy priodol trafod rhai eitemau ar agendâu a allai fod wedi cael eu hystyried yn ystod sesiwn 'mewn pwyllgor' y cyfarfod yn y gorffennol, yn y sesiwn gyhoeddus. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i wella tryloywder a gwelsom Gadeirydd un pwyllgor yn herio pam nad oedd rhai adroddiadau yn cael eu hystyried yn ystod sesiwn gyhoeddus y cyfarfod. Roedd y pwyllgorau yr arsylwyd arnynt wedi'u gweinyddu'n dda ac roedd ganddynt agendâu clir a oedd yn adlewyrchu cylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw. Mae eitemau yn cael eu croesgyfeirio'n dda rhwng pwyllgorau er mwyn sicrhau llifau sicrwydd a throsolwg effeithiol. Mae cadeiryddion y pwyllgorau hefyd yn paratoi adroddiad byr ac yn ei gyflwyno ac unrhyw faterion allweddol i'r Bwrdd, er mwyn rhoi sicrwydd.
- 78 Er bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd, nodwyd gennym fod papurau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn aml yn cynnwys cannoedd o dudalennau a bod rhai cyfarfodydd yn ystod 2017 wedi para mwy na phum awr. O ganlyniad, ni ellir tynnu sylw aelodau'r Bwrdd na'i Bwyllgorau at wybodaeth bwysig mewn adroddiadau ac efallai na chaiff eitemau tua diwedd agendâu eu hystyried yn llawn.
- 79 Rydym wedi darparu isod rai sylwadau penodol ar weithrediad y Bwrdd a'i bwyllgorau, yn ogystal â nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella.
- 80 Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis, gan gynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd datblygu bob yn ail. Mae'n cyhoeddi agendâu ac adroddiadau ar ei wefan ar gyfer busnes a gynhelir yn y rhannau cyhoeddus o gyfarfodydd ei Fwrdd ac, fel yr awgryma'r teitl, mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i aelodau o'r cyhoedd, staff a'r cyfryngau.
- 81 Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau blynyddol gan bob un o'i bwyllgorau sy'n nodi'r hyn y mae'r pwyllgor wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn flaenorol, ym marn aelodau'r pwyllgor, a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiadau blynyddol ar gyfer 2016-17 yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2017.
- 82 Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu aelodaeth ei bwyllgorau yn rheolaidd. Cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i aelodaeth pwyllgorau yn ei gyfarfod ym mis Mai 2017 a gwnaeth newidiadau pellach yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017 ar ôl i Gadeirydd newydd y Bwrdd Iechyd gael ei benodi.
- 83 Ym mhob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd ceir 'Stori Cleifion' y bwriedir iddi roi cipolwg i Aelodau'r Bwrdd ar brofiadau cleifion o ddefnyddio gwasanaethau iechyd lleol. Yn

2017, canolbwyntiwyd ar y gwasanaethau yn bennaf, gyda chyflwyniadau gan aelodau o staff ac nid y cleifion eu hunain. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r Bwrdd yn manteisio i'r eithaf ar storïau'r cleifion.

- 84 Mae cyfarfodydd datblygu'r Bwrdd yn cynnig cyfle i aelodau'r tîm gweithredol frifio pob aelod o'r bwrdd ynglŷn â materion busnes a mentrau allweddol a chlywed gan gynrychiolwyr o gyrff allanol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn helpu aelodau annibynnol i ddeall busnes y Bwrdd lechyd yn well er mwyn paratoi ar gyfer trafodaethau yng nghyfarfodydd Cyhoeddus y Bwrdd neu'r pwyllgorau yn y dyfodol ac yn creu cyfle i aelodau'r Bwrdd gyda'i gilydd helpu i bennu eu blaenoriaethau a'u cyfeiriad, cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu strategaethau ac agweddau pwysig eraill ar fusnes.
- 85 Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn parhau i chwarae rhan graidd yn y trefniadau llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol yn rheolaidd ac yn monitro'r cynnydd y mae'r Bwrdd lechyd wedi'i wneud o ran ymateb i argymhellion, gan sicrhau yr ymdrinnir â phob argymhelliad yn llawn mewn modd amserol. Ceir presenoldeb da mewn cyfarfodydd gyda chwestiynau da yn cael eu gofyn i awduron adroddiadau sy'n dangos bod gan ei aelodau ddealltwriaeth dda o gynnwys yr adroddiad a materion allweddol. Caiff yr agenda ei chynllunio'n effeithiol yn seiliedig ar ddyddiadau busnes allweddol, megis adolygu adroddiadau a datganiadau blynyddol, Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Cyfrifon a'r Archwiliad Allanol o'r Cyfrifon. Mae gan y pwyllgor gylch gorchwyl clir, mae'n cynnal adolygiadau hunanasesu ac yn adolygu ei gylch busnes yn rheolaidd.
- 86 Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch gofal iechyd a'r gwasanaethau a ddarperir ac a sicrheir gan y Bwrdd lechyd. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 a nodi cymysgedd da o gyflwyniadau diddorol ac adroddiadau perthnasol, trafodaeth hyddysg ynghylch materion allweddol a lefelau presenoldeb da gan swyddogion i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau.
- 87 Cefnogir y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion gan y Grŵp Gweithrediadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion. Mae'r grŵp gweithrediadau yn ystyried eitemau ar agenda'r pwyllgor pan fo adroddiadau ar ffurf ddrafft a gall roi cyngor i'r pwyllgor ar faterion pwysig. Cyfarfu'r grŵp gweithrediadau ar 18 Awst 2017 er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ar 13 Medi 2017. Ni chafodd adroddiad y grŵp gweithrediadau ei gyflwyno na'i drafod yng nghyfarfod y pwyllgor am fod y cyfarfod yn hwyr yn dechrau. Nid yw'n glir sut mae gwaith y grŵp gweithrediadau yn ychwanegu gwerth at y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion.
- 88 Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth** yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar ansawdd ac uniondeb a diogelwch; a mynediad priodol a'r defnydd o wybodaeth a thechnoleg gwybodaeth. Gwnaethom arsylwi ar y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2017. Yn ogystal â'r cofnodion a'r camau gweithredu o'i gyfarfod blaenorol ac adroddiad llafar, roedd yr agenda yn cynnwys 12 o adroddiadau i'w hystyried gan y cyfarfod. Roedd yr agenda yn cyd-fynd â chylch gorchwyl y pwyllgor ac yn cynnwys materion cyfredol y byddai angen i'r Bwrdd lechyd gael sicrwydd mewn perthynas â hwy, ond

trafodwyd un eitem am fwy na 45 munud a oedd yn rhannol gyfrifol am y ffaith bod y cyfarfod wedi para'n hwy na'r tair awr a oedd wedi'u neilltuo ar ei gyfer. Cafodd y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 6 Tachwedd 2017 ei ganslo tra'n aros i'r Aelod Annibynnol newydd a fyddai'n cadeirio'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth gael ei benodi.

- 89 Mae'r **Pwyllgor Partneriaeth Cyhoeddus a Llesiant** yn cefnogi'r Bwrdd ac yn rhoi cyngor iddo ar ei gyfrifoldebau o ran hyrwyddo a gwella iechyd a lles y cyhoedd. Yn unol â chyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf), mae cyrff cyhoeddus wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus². Sefydlodd y Bwrdd Iechyd y pwyllgor hwn er mwyn helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf a chydgysylltu ei weithgarwch ymgysylltu a'i gyfraniadau ar y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn ei ffiniau daearyddol. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod y pwyllgor ar 14 Medi 2017. Roedd yr agenda yn cyd-fynd â chylch gorchwyl y pwyllgor a chanolbwyntiodd ar faterion partneriaeth. Mae'n amlwg bod y pwyllgor yn dal i ddatblygu ac, mewn rhai ffyrdd, megis ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, dim ond wrth bwysau partneriaid allanol y gall symud.
- 90 Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** yn cefnogi'r Bwrdd drwy nodi a chraffu ar gamau gweithredu i wella perfformiad a threfniadau a sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd. Ni wnaethom arsylwi ar y pwyllgor hwn ond gwnaethom adolygu agenda a chofnodion ei gyfarfodydd. Mae agenda'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2017 yn cyd-fynd â chylch gorchwyl y pwyllgor a dengys cofnodion y cyfarfod blaenorol fod y pwyllgor wedi ystyried adroddiadau manwl er mwyn ei alluogi i roi sicrwydd digonol i'r Bwrdd. Cadeiriwyd y pwyllgor hwn yn flaenorol gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd ac, yn y dyfodol, caiff ei gadeirio gan un o'r aelodau annibynnol newydd, nad oeddent wedi'u penodi pan gynhaliwyd ein hasesiad.
- 91 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas ag effeithiolrwydd y bwrdd a'r angen i atgyfnerthu ei weithgareddau datblygu. Mae **Arddangosyn 7** yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

² Diben Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd drwy atgyfnerthu trefniadau cydweithio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhellion a wnaed yn 2016 ar effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Sicrwydd bwrdd³ ac effeithiolrwydd A3</p> <p>Adeiladu ar y gwaith cynnar sydd wedi'i wneud i ddatblygu fframwaith sicrwydd trwy adolygu ansawdd amcanion corfforaethol y Bwrdd lechyd a pha mor glir y mae'r rhain wedi'u hegluro.</p>	<p>Er bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, mae'r sefyllfa yn ddigynfnewid ar y cyfan. Nid yw Fframwaith Sicrwydd Bwrdd wedi'i ddatblygu na'i gytuno.</p> <p>Ni chwblhawyd y cam gweithredu</p>
<p>A4</p> <p>Nodi'r prif fygythiadau i gyflawni'r amcanion corfforaethol a phennu pa gamau sicrhau ychwanegol y gallai fod eu hangen i helpu'r Bwrdd lechyd i gyflawni'r amcanion hynny.</p>	<p>Er bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, mae'r sefyllfa yn ddigynfnewid ar y cyfan. Nid yw Fframwaith Sicrwydd Bwrdd wedi'i ddatblygu na'i gytuno.</p> <p>Ni chwblhawyd y cam gweithredu</p>
<p>A5</p> <p>Adolygu rhaglen ddatblygu'r Bwrdd a'r anghenion datblygu penodol i gefnogi aelodau newydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn i ddod.</p>	<p>Fel mewn Byrddau lechyd eraill, mae sawl Aelod Annibynnol o Fwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod yn eu swydd ac wedi cael eu disodli gan Aelodau Annibynnol newydd. Bwriad y Bwrdd lechyd yw sicrhau bod pob Aelod Annibynnol newydd yn cael yr hyfforddiant sefydlu cenedlaethol ac, yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, bydd yn darparu hyfforddiant sefydlu penodol wedi'i deilwra yn sesiynau Datblygu'r Bwrdd ac mewn cyfarfodydd un i un ag Aelodau Gweithredol.</p> <p>Mae'r cam gweithredu yn mynd rhagddo</p>

³ Mae Canllawiau Trysorlys EM ar Fframweithiau Sicrwydd (2012) yn diffinio fframwaith sicrwydd fel: 'An assurance framework is a structured means of identifying and mapping the main sources of assurance in an organisation, and co-ordinating them to best effect'.

Mae'r Pwyllgorau yn cynnal trosolwg o risgiau allweddol ond gallent gael eu cefnogi'n well gan y wybodaeth a gânt

- 92 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 93 Cymeradwyodd y Bwrdd lechyd ei Strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig ym mis Ionawr 2017 gan nodi bod gwaith datblygu pellach i baratoi canllawiau 'sut i' i staff yn mynd rhagddo.
- 94 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar risgiau corfforaethol i bwyllgorau a'r Bwrdd, sy'n golygu bod modd llunio agendâu fel eu bod yn canolbwyntio ar feysydd sy'n destun pryder. Cofnodir risgiau gan ddefnyddio graffigau lliw er mwyn tynnu sylw at y rhai sydd â'r sgorau uchaf. Fodd bynnag, weithiau cyflwynir risgiau i bwyllgorau heb adroddiad eglurhaol sy'n nodi'r risgiau yn eu cyd-destun. Felly, gadewir i'r Aelodau ddehongli asesiadau risg eu hunain yn niffyg gwybodaeth am dueddiadau neu fanylion camau unioni.
- 95 Roedd y dangosfwrdd risg a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Medi 2017 yn cynnwys 41 o risgiau. Roedd y Bwrdd lechyd o'r farn bod 16 o risgiau yn 'enfawr', bod 23 yn 'uchel' a bod dwy yn 'gymedrol'. Wrth gofnodi'r duedd ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd, dangosodd yr adroddiad dair risg newydd a nododd fod un risg wedi cynyddu a bod 36 wedi aros yn ddigyfnewid. Mae sgorau risg yn aml yn aros yn ddigyfnewid, weithiau am sawl blwyddyn ac nid yw'n glir sut y bydd sgorau risg yn newid o ganlyniad i gamau lliniaru arfaethedig. Mae hyn yn awgrymu bod y Bwrdd lechyd yn monitro risgiau ond nad yw'n rheoli risgiau yn effeithiol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cydnabod bod angen i'r Bwrdd lechyd wella'r ffordd y mae'n rheoli risg. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol weithdy ym mis Hydref 2017 a hwyluswyd gan Gydwasanaethau'r GIG a'i Wasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn dechrau'r broses o resymoli ac ailwampio'r ffordd y mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli risg ac yn rhoi gwybod amdani. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ond dylai newidiadau arfaethedig helpu'r Bwrdd lechyd i roi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol ar waith, drwy wella trefniadau rheoli risg.

Mae rheolaethau mewnol yn effeithiol, ar y cyfan, o ran bodloni gofynion sicrwydd presennol ond mae angen gwella rhai agweddau, gan gynnwys y defnydd o archwiliadau clinigol, ymhellach

- 96 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o drefniadau rheolaeth fewnol. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 97 Fel rhan o'r asesiad strwythuredig eleni, rydym wedi ystyried sut y caiff rheolaethau allweddol eu gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys archwilio mewnol, gwasanaethau gwrth-dwyll lleol, cynlluniau archwilio clinigol a gwaith dilysu ar ôl taliadau yn ogystal â phrosesau er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau.
- 98 **Adrodd ar reolaethau mewnol a materion cysylltiedig** – Cyflwynir pob adroddiad archwilio mewnol ac allanol a phob un o adroddiadau'r Gwasanaethau Gwrth-dwyll i'r Pwyllgor Archwilio a, lle y bo'n briodol, bwyllgorau eraill ac fe'u hystyrir ganddynt.

At hynny, mae'r Pwyllgor Archwilio yn neilltuo amser cyn ei gyfarfodydd i siarad yn breifat ag archwilyr unigol neu'r Rheolwr Gwrth-dwyll drwy gydol y flwyddyn. Mae swyddogion gweithredol yn ystyried camau y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu cymryd mewn ymateb i argymhellion ac yn pennu cyfrifoldebau am eu cyflawni. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad sy'n olrhain y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ymateb i argymhellion archwilio mewnol ac allanol, mae'n gofyn am adroddiadau dilynol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion ac yn dwyn Swyddogion Gweithredol i gyfrif fel y bo'n briodol.

- 99 **Archwilio mewnol** – Mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried asesiad risg y Gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn helpu i lywio trafodaeth ynghylch y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae cynllun gweithredol 2016-17 y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r strategaeth archwilio hyd at 2018-19 yn nodi'r ffordd y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y systemau rheolaeth fewnol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn gweithio'n agos â Phennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i adolygu'r trefniadau rheolaeth fewnol. Ym mis Rhagfyr 2017, mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn nodi, o'i raglen o archwiliadau ar gyfer 2017-18, fod pump wedi'u cwblhau, bod 17 yn mynd rhagddynt a bod un adroddiad ar ffurf ddrafft. Bwriedir i 18 o archwiliadau gael eu cwblhau yn ystod y pedwar mis sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol, yr ymddengys y bydd yn anodd ei gyflawni.
- 100 **Gwasanaethau gwrth-dwyll lleol** – Mae trefniadau gwrth-dwyll lleol yn rhan annatod o drefniadau rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cytuno ar y cynllun gwaith blynyddol â Phennaeth y Gwasanaethau Gwrth-dwyll. Wedyn mae Pennaeth y Gwasanaethau Gwrth-dwyll yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn erbyn y cynllun a chanfyddiadau unrhyw ymchwiliadau penodol i'r Pwyllgor Archwilio. Yn ystod 2016/17, cynhaliodd y Gwasanaethau Gwrth-dwyll Lleol 58 o ymchwiliadau i achosion o dwyll a amheuir ac adenillodd £25,527 o ganlyniad i'r ymchwiliadau hyn.
- 101 Nododd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Gwrth-dwyll ar gydymffurfio â safonau Diogelu'r GIG (Twyll, Llwgrowbrwyo a Llygredd) 2016-17 fod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â gofynion y safonau. Roedd hyn yn cynnwys dull seiliedig ar risg clir o ymgymryd â gwaith gwrth-dwyll a matrices monitro a ddefnyddir i sicrhau y caiff argymhellion a wneir eu gweithredu a'u hadolygu. Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Gwrth-dwyll fod gan y Bwrdd Iechyd strwythur adrodd da ar waith rhwng yr Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Cyllid.
- 102 **Cynlluniau archwilio clinigol** – Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'r rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol ac yn gwneud gwaith archwilio clinigol lleol sy'n canolbwyntio ar risgiau lleol. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2016-17, asesodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod gwaith archwilio clinigol yn rhoi 'sicrwydd cyfyngedig'. Nododd ddiffygion yn y rhaglen archwilio clinigol a thynnodd sylw at bryderon ynghylch a oedd risgiau clinigol sefydliad-benodol yn cael eu nodi a'u lliniaru. Er bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydnabod bod rhai archwiliadau clinigol lleol yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg o gynnal yr archwiliadau hyn.

- 103 **Dilysu ar ôl taliadau**⁴ – Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i ganolbwyntio ar waith dilysu ar ôl talu a chafodd adroddiadau ym mis Chwefror 2017 a mis Ebrill 2017 a oedd yn dangos bod cynnydd wedi'i wneud. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y data dilysu ar ôl talu yn dangos tuedd gadarnhaol ac y byddai adroddiadau diweddar pellach yn parhau i gael eu darparu.
- 104 **Canllawiau i staff ac Aelodau Annibynnol** – Mae gan y Bwrdd lechyd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Cymeradwyodd y Bwrdd 'y Polisi a'r Weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer Rheoli Polisiâu, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Eraill' ym mis Mai 2017, gan nodi bod hwn yn bolisi rheoli cyffredinol o fewn y sefydliad.
- 105 Mae polisiâu a gweithdrefnau i'w gweld ar fewnrwyd y Bwrdd lechyd ac, yn ogystal â hynny, mae'r Aelodau Annibynnol yn cael copïau caled o bolisiâu a gweithdrefnau. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhoi canllawiau a chymorth ychwanegol fel y bo'n briodol mewn perthynas â meysydd mwy arbenigol megis caffael.
- 106 **Cydymffurfio â pholisiâu a gweithdrefnau** – Mae gwendidau yn y prosesau cymeradwyo sy'n ymwneud â'r defnydd o staff asiantaeth a staff locwm. Er bod y Bwrdd lechyd wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio staff asiantaeth dan gontract, roedd gwariant ar staff asiantaeth dan gontract yn dal i fod dros £11 miliwn yn fwy na'r gyllideb ar gyfer 2016-17.

Mae gan y Bwrdd lechyd y sylfeini ar gyfer trefniadau llywodraethu gwybodaeth da ac, wrth iddo baratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd, bydd hyn yn herio gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd

- 107 Mae angen i bob Corff lechyd sicrhau ei fod yn cynnal diogelwch, cyfrinachedd a hygyrchedd cofnodion cleifion a gwybodaeth sensitif arall. Gorfodir y gofyniad hwn drwy ofynion Caldicott y GIG, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a deddfwriaeth gyfredol Deddf Diogelu Data 1998 a gaiff ei disodli cyn bo hir gan reoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd.^[1]
- 108 **Mae gofynion Caldicott y GIG** yn un o elfennau allweddol y dull llywodraethu gwybodaeth a chyfrinachedd yng Nghymru. Maent yn darparu cyfres o argymhellion ac egwyddorion i sefydliadau sy'n gweithio ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn helpu i sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol adnabyddadwy ei diogelu'n ddigonol^[2]. Mae ein gwaith eleni wedi nodi bod y Bwrdd lechyd wedi cwblhau hunanasesiad Cyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott ym mis Ebrill 2017 ac, ar hyn o bryd, noda fod ganddo lefel gydymffurfiaeth o 89%. Nodwyd gennym hefyd fod gan y

⁴ Diben y broses dilysu ar ôl talu yw rhoi sicrwydd i Fyrddau lechyd bod yr hawliadau am daliadau a gyflwynir gan gontractwyr gofal sylfaenol yn briodol a bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â manyleb gwasanaeth y GIG a deddfwriaeth berthnasol.

^[1] [Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE](#)

^[2] [Llywodraethu Gwybodaeth a Caldicott](#)

Bwrdd Iechyd nifer o gamau gwella ar waith yn 2017-18, mewn perthynas â Caldicott a hefyd o ran llywodraethu gwybodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cwblhau'r broses o gyflwyno'r rhaglen Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth i bob is-adran a sefydlu grwpiau llywodraethu gwybodaeth is-adrannol;
- ymgorffori ymwybyddiaeth a gwybodaeth am lywodraethu gwybodaeth ymhellach ym mhob is-adran, er enghraifft, y risgiau i gyfrinachedd gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag achosion posibl o dorri seiberddiogelwch;
- gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth staff (ym mis Mawrth 2017 y gyfradd gydymffurfio oedd 83%); a
- datblygu trefniadau i fodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff o'r gofynion newydd.

109 **Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth** a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y **Ddeddf Diogelu Data**. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn ymateb i geisiadau gan wrthrych gwybodaeth mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Roedd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn 2016-17 ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth o fewn y terfyn amser gofynnol, fel y'i cofnodwyd yn yr adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth Blyneddol ym mis Ebrill 2017 fel a ganlyn:

- 84% mewn perthynas â cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; a
- 96% mewn perthynas â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data.

110 **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol** – Daw'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliadau) i rym ar 25 Mai 2018 ac maent yn cyflwyno rhai newidiadau sylweddol i ofynion ac egwyddorion diogelu data. Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno newidiadau i hawliau a rhyddid mewn perthynas â gwrthrych y data ac maent yn cynnwys y newidiadau canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o bob achos o dorri rheoliadau data lle ceir risg i hawliau gwrthrych y data;
- lleihau'r terfynau amser a ganiateir i ymateb i geisiadau gan wrthrych data i 30 diwrnod;
- mae cwmpas y Ddeddf bellach yn ymestyn y tu hwnt i ffin Ewrop, ar gyfer prosesu data gwrthrychau data Ewropeaidd. Gall hyn effeithio ar Gyrff Iechyd sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil byd-eang;
- gall cosbau am fynd yn groes i'r polisi gyrraedd terfyn uchaf o 4% o'r trosiant, neu €20 miliwn (pa un bynnag sydd fwyaf); a
- newidiadau o ran hawliau gan gynnwys hawliau i gael gweld data, yr hawl i anghofio data a dileu data a gwella eglurder cynnwys.

111 Mae'r Bwrdd Iechyd, o dan arweiniad yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth, wedi dechrau ymateb i'r newidiadau deddfwriaethol ac mae wedi rhoi rhaglen drawsnewid ar waith i asesu parodrwydd ar gyfer y Rheoliadau a rhoi'r gofynion newydd oddi

tanynt ar waith. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae nifer o weithgareddau i nodi camau gwella pellach yn mynd rhagddynt o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu a chwblhau Cofrestr Asedau Gwybodaeth, cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer llifau gwybodaeth a phrosesu rhwydwaith o berchenogion asedau gwybodaeth a'i ddatblygu ymhellach.

- 112 Mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth cyn i Reoliadau 2018 gael eu rhoi ar waith. Mae angen iddo ddiweddarau ei ddull strategol o lywodraethu gwybodaeth a'i gysoni â'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddigidol genedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu her adnoddau cyfyngedig wrth geisio darparu canllawiau a hyfforddiant gorfodol ar gyfrinachedd gwybodaeth tra'n rhoi trefniadau newydd ac effeithiol ar waith i fodloni gofynion deddfwriaethol y Rheoliadau newydd.
- 113 **Yn gyffredinol**, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ei fod yn gweithredu mewn modd rhagweithiol wrth baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth diogelu data newydd ond er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau yn effeithiol efallai y bydd goblygiadau o ran adnoddau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau ei fod yn ymateb i geisiadau i gael gweld gwybodaeth statudol, y disgwylir iddynt godi ar ôl i'r Rheoliadau gael eu rhoi ar waith, mewn modd amserol. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i adolygu ei adnoddau dros y chwech i 12 mis nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas i fodloni'r gofynion hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli perfformiad mewn modd gweithredol a gall ddangos perfformiad cadarnhaol mewn rhai meysydd

- 114 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd gweithgarwch rheoli perfformiad.
- 115 Pennir amrywiaeth o fesurau a thargedau cenedlaethol i gyrff iechyd yng Nghymru y maent yn atebol am eu cyflawni. Fe'u nodir yn Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2017/18⁵. Yn ogystal â'r targedau cenedlaethol hyn, gall cyrff iechyd bennu mesurau a thargedau lleol er mwyn canolbwyntio ar feysydd sy'n arbennig o berthnasol iddynt. Rydym wedi adolygu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn ogystal â'r duedd mewn perfformiad yn erbyn rhai targedau allweddol. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

⁵ [Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2017-2018](#)

Er bod perfformiad wedi gwella mewn rhai meysydd allweddol, nid yw pob targed yn cael ei gyflawni

- 116 Fel rhan o'r asesiad strwythuredig eleni, rydym wedi ystyried cynnydd cyffredinol yn erbyn mesurau'r fframwaith cyflawni cenedlaethol y cyflwynir adroddiadau rheolaidd arno i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn ei adroddiad Integredig ar Berfformiad ac a gaiff ei fonitro ganddynt. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr a manwl o berfformiad gan ddefnyddio enghreifftiau graffigol sy'n dangos tueddiadau a pherfformiad yn erbyn targedau. Mae'r cyflwyniad i'r adroddiad yn tynnu sylw at gynnydd cyffredinol a meysydd sy'n destun pryder. Er bod yr adroddiad yn dangos y camau gweithredu sydd naill ai wedi'u cynllunio neu sy'n cael eu cyflawni eisoes, y bwriedir iddynt wella perfformiad, nid yw'r camau gweithredu hyn bob amser yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwylol). Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i'r Aelodau Annibynnol ddwyn Swyddogion Gweithredol i gyfrif. O ganlyniad, rhoddir sicrwydd i Aelodau Pwyllgorau a'r Bwrdd yr eir i'r afael â pherfformiad, ond nid ydynt bob amser yn cael sicrwydd drwy ddeall sut. Cyflwynir yr adroddiadau integredig ar berfformiad ochr yn ochr â'r adroddiadau monitro cyllid. Er y bwriedir i amseriad yr adroddiadau hyn gysoni perfformiad â gwariant, yn ymarferol ni chaiff y cysylltiadau eu cyfleu na'u nodi'n glir. Mae cyfle gan y Bwrdd lechyd i ystyried sut y gall sicrhau mwy o gysondeb rhwng adroddiadau a symud tuag at adroddiadau mwy integredig.
- 117 Daw'r wybodaeth ganlynol o adroddiad Integredig ar Berfformiad Chwarter 2 y Bwrdd lechyd ar gyfer 2017-18 a nododd gynnydd da yn y meysydd canlynol:
- nifer y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am ddiagnosteg;
 - nifer y cleifion allanol sy'n destun oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiadau dilynol;
 - nifer y cleifion allanol na ddaethant i'w hapwyntiadau;
 - cyfradd absenoldeb oherwydd salwch; a
 - Cleifion sy'n blant ac yn bobl ifanc gyda gwasanaethau iechyd meddwl (CAMHS) sy'n aros llai na 28 diwrnod.
- 118 Nododd hefyd feysydd lle mae pryder ynghylch:
- cleifion sy'n aros pedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys;
 - cleifion sy'n aros 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys;
 - nifer y trosglwyddiadau ambiwlans sy'n cymryd mwy na 60 munud;
 - perfformiad yn erbyn y targed o 36 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth mewn perthynas ag Offthalmoleg; a
 - Mesurau lechyd Meddwl Gofal Sylfaenol mewn gwasanaethau asesu ac ymyrryd.

119 Dengys **Arddangosyn 8** fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol ond, yn seiliedig ar ddata perfformiad canol blwyddyn, nad yw wedi cyflawni'r perfformiad targed arfaethedig mewn sawl maes eto. Dengys adroddiad Integredig ar Berfformiad Chwarter 2 2017-18 fod y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni 35% o'r targedau cenedlaethol a lleol.

Arddangosyn 8: mae'r tabl canlynol yn nodi rhai elfennau o berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau allweddol

Mesur	Targed	Mawrth 2017 neu'r llinell sylfaen	Medi 2017
Cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am ymyriad diagnostig penodol	0	2,491	2,201
Cleifion a gollodd apwyntiad cleifion allanol newydd – arbenigeddau penodol	Gostwng	6.5%	5.6%
Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch	Gostyngiad o 12 mis	5.1%	4.8%
Mesur CAMhS o 80% o gleifion sy'n aros llai na 28 diwrnod	Gostwng	6.5%	5.6%
% y cleifion sy'n aros llai na phedair awr ym mhob cyfleuster damweiniau ac achosion brys nes iddynt gael eu trosglwyddo, eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau	95%	79%	86%
Nifer y cleifion sy'n aros 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster damweiniau ac achosion brys nes iddynt gael eu trosglwyddo, eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau	0	573	325
Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans sy'n cymryd mwy na 60 munud	0	151	142
Cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos am driniaeth (rhwyng atgyfeirio a thriniaeth)	0	975	1485
Cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth – rhwyng atgyfeirio a thriniaeth	95%	90.5%	88.1%
Cleifion sy'n cael eu hasesu gan Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol o fewn 28 diwrnod i gael eu hatgyfeirio	80%	83.4%	73.8%

Ffynhonnell: Adroddiad Integredig ar Berfformiad y Bwrdd Iechyd – Tachwedd 2017

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad wedi'u hymgorffori

- 120 Yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2016, nodwyd 'Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio'r fframwaith cyflawni er mwyn sicrhau bod cerrig milltir wedi'u diffinio a'u halinio'n glir. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau gweithio ar ddiweddarau Cynlluniau Newid Gwasanaeth a fydd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a gaiff ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2017'. Yn Asesiad Strwythuredig y flwyddyn hon, nodwn fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Cynlluniau Newid Gwasanaeth ym mhob rhan o'r sefydliad a bod y rhain bellach wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2016-19. Mae cynlluniau gwasanaeth hefyd yn cynnwys canlyniadau ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy o waith i ddiffinio ac ymgorffori canlyniadau yn glir yn ei drefniadau cynllunio gwasanaethau.
- 121 Yn ystod y broses o gyflwyno Cynlluniau Newid Gwasanaeth, rhoddwyd rhywfaint o ddisgresiwn i reolwyr wrth gwblhau'r cynlluniau. Fe'n hysbyswyd mai nod tîm cynllunio'r Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod gwella cysondeb o ran cynnwys y cynlluniau hyn a'i fod yn bwriadu rhoi canllawiau i reolwyr ar sut i'w cwblhau yn unol â chanllawiau cynlluniau diweddar gan Lywodraeth Cymru.
- 122 O fewn is-adrannau, caiff rheolwyr eu dwyn i gyfrif am wella perfformiad mewn perthynas â chyllidebau a gwariant, pwysau ar y gweithlu, dangosyddion perfformiad ac ansawdd a diogelwch. Mae allbwn yr adolygiadau hyn yn cynnwys materion i'w trafod yn y cyfarfod adolygu nesaf, nodiadau o faterion allweddol a chymau y mae'r is-adran yn bwriadu eu cymryd. Caiff yr allbwn hwn ei adolygu wedyn gan y Tîm Gweithredol. Mae'r lefel hon o graffu gweithredol ochr yn ochr ag adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn dangos diwylliant rheoli perfformiad cadarnhaol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau i reoli ei adnoddau megis asedau, y gweithlu a thechnoleg gwybodaeth ond bydd angen datblygu'r rhain ymhellach er mwyn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol

- 123 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer nifer o ffactorau sy'n galluogi'r defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys rheoli newid, y gweithlu, asedau ac ystadau, gwaith partneriaeth a'r defnydd o dechnoleg. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau er mwyn helpu i wella gwasanaethau ac mae'n meithrin gallu o ran rheoli rhaglenni a newid er mwyn cyflawni ei Strategaeth Dyfodol Clinigol

- 124 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r broses o sicrhau gwelliant, newid a thrawsnewidiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 125 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi na chanllawiau penodol ar reoli newid er iddo ddiwygio ei Becyn Cymorth ar gyfer Arwain a Rheoli'r Broses o Newid y Gweithlu, a ddatblygwyd yn wreiddiol yn 2014, ym mis Mawrth 2017. Diben y pecyn cymorth hwn yw darparu fframwaith ar gyfer y broses er mwyn rheoli ac arwain mentrau i newid y gweithlu.
- 126 Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, dywedodd y Bwrdd Iechyd 'Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen am ddull cytunedig o gefnogi rhaglenni rheoli newid ffurfiol'. Yn ein Hasesiad Strwythuredig ar gyfer 2017 nodwn fod y Bwrdd Iechyd wedi recriwtio staff ychwanegol i reoli newid a rhaglenni ac wedi rhoi trefniadau rheoli newid ar waith.
- 127 Sefydlwyd tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan yn 2013 er mwyn cefnogi staff drwy eu helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Ceisiodd ddefnyddio methodolegau gwella a chreu lle i arloesi drwy ddod â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i greu atebion ar y cyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi cefnogi digwyddiadau rhwydwaith a phrosiectau parhaus i atal syrthio ac wedi helpu i ddatblygu Cynlluniau Gofal Uwch mewn cartrefi nyrsio.
- 128 Mae rhaglenni newid mwy o faint y Bwrdd Iechyd yn cynnwys datblygu Ysbyty Athrofaol y Grange a chyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio rheolwyr newid ychwanegol ac wedi gofyn am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r gallu i reoli newid ymhellach drwy recriwtio pobl â sgiliau a gwybodaeth benodol sydd eu hangen i gyflawni'r mentrau pwysig hyn.
- 129 Mae Ysbyty Athrofaol y Grange yn ddatblygiad cyfalaf ac mae'r rhaglen adeiladu yn cael ei rheoli gan ddefnyddio egwyddorion PRINCE II. Mae Ysbyty Athrofaol y Grange yn nodwedd allweddol ar y Strategaeth Dyfodol Clinigol ac mae'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau newydd a gwell yn cael ei fonitro a'i reoli drwy fwrdd cyflawni a gadeirir gan y Prif Weithredwr. Mae'r bwrdd cyflawni yn cael cyngor gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid presennol ac fe'i cefnogir gan chwe ffrwd waith fel a ganlyn:
- ailgynllunio gwasanaethau
 - datblygu'r gweithlu a'r sefydliad
 - cyfalaf ac ystadau strategol
 - cyfathrebu ac ymgysylltu
 - seilwaith ategol

- technoleg gwybodaeth

- 130 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio rhywfaint o allu rheoli ychwanegol er mwyn ei helpu i reoli'r Strategaeth Dyfodol Clinigol, ond mae'n cydnabod na fydd hyn, ynddo'i hyn, yn ddigon. Felly, mae wedi gofyn am adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i reoli newid.
- 131 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â rheoli newid. Mae **Arddangosyn 9** yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 9: cynnydd ar argymhellion rheoli newid 2016

Argymhelliad 2016	Disgrifiad o'r cynnydd
<p>Helpu i gyflawni newid yn effeithiol</p> <p>A1 Mabwysiadu dull rheoli newid cytunedig a ffurfiol a datblygu galluoedd y staff craidd hynny sy'n rheoli newid.</p> <p>A2 Cyflwyno swyddfa rheoli rhaglen a sicrhau bod digon o allu a seilwaith i hwyluso cyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y Cynlluniau Newid Gwasanaeth a'r ganolfan gofal critigol arbenigol.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio staff ychwanegol er mwyn helpu i reoli newid ac wedi datblygu trefniant Bwrdd Cyflawni ar gyfer y Strategaeth Dyfodol Clinigol ac mae Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan yn parhau i ystyried cyfleoedd i reoli newid. Nid yw wedi datblygu dull rheoli newid safonol eto.</p> <p>Mae camau gweithredu yn mynd rhagddynt ond nis cwblhawyd eto</p>

Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y pwysau sydd ar ei weithlu ac yn mynd i'r afael â meysydd allweddol megis absenoldeb oherwydd salwch a gorddefnydd o staff asiantaeth a staff locwm. Nid yw wedi datblygu cynllun ar gyfer gweithlu'r sefydliad sy'n nodi anghenion staff yn y dyfodol yn seiliedig ar fodel clinigol wedi'i ddiweddarau sydd ei angen i gyflawni ei fodel Dyfodol Clinigol

- 132 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau i reoli'r gweithlu mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 133 Drwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu'r gweithlu presennol, a nodir isod, ac yn ceisio mynd i'r afael â hwy:
- prinder sgiliau, heriau o ran recriwtio;
 - proffil y gweithlu sy'n heneiddio;
 - Rota'r Ddeoniaeth a chydymffurfiaeth â safonau hyfforddiant;
 - darparu gwasanaethau saith diwrnod a gwasanaethau estynedig ar gyfer nifer o grwpiau proffesiynol;

- sgiliau arbenigol sydd wedi'u gwasgaru'n rhy denau ar drefniadau presennol safleoedd ysbyty; a'r
 - galw cynyddol am wasanaethau ym mhob rhan o'r system gofal iechyd.
- 134 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn ac yn cefnogi ei Strategaeth Dyfodol Clinigol, ond nid oes cynllun manwl wedi'i gymeradwyo eto. Mae angen diweddarau'r model clinigol gwreiddiol a ddefnyddiwyd i ategu'r achos busnes dros Ysbyty Athrofaol y Grange yn 2013-14, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cymunedol. Bwriad y Bwrdd Iechyd yw bydd y model clinigol yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu.
- 135 Mae partneriaid busnes tîm datblygu'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda'r rheolwyr gweithredol er mwyn asesu anghenion o ran y gweithlu a recriwtio a hyfforddi staff i ddiwallu'r anghenion hyn. Er enghraifft, mae wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu rolau newydd nad ydynt yn rhai meddygol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, megis fferyllwyr mewn practisau ac uwch-ymarferwyr nyrsio fel rhan o raglen i foderneiddio'r gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi dechrau cyflwyno rolau newydd megis uwch-ymarferwyr nyrsio a chynorthwywyr meddygol.
- 136 Yn 2016, aeth y Bwrdd Iechyd i'r afael â'i lefelau uchel o wariant ar staff nyrsio asiantaeth nad ydynt o dan gontract. Cymeradwyodd ymgyrch gyfathrebu, sef 'Our staff looking after our patients', a chynyddodd nifer y staff banc, y defnydd o oramser a lefelau recriwtio o wledydd tramor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i geisio lleihau'r defnydd o feddygon locwm a staff asiantaeth drwy gyflymu'r broses gymeradwyo, pennu cyfeiriad clir o ran y defnydd o staff asiantaeth a staff locwm a cheisio newid agweddau ynglŷn â'r defnydd o staff asiantaeth a staff locwm, ond mae'n dal i fod yn her.
- 137 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull strwythuredig o asesu anghenion hyfforddiant drwy gyfarfodydd arfarnu blynyddol a chysylltiadau â'r broses ailddilysu. Ym mis Tachwedd 2017 dengys yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad fod 73.6% o staff wedi bod yn destun adolygiad arfarnu datblygiad personol ym mis Medi 2017 yn erbyn targed o 80%. Cofnodir anghenion hyfforddiant mewn cynlluniau datblygu personol a gaiff eu coladu wedyn yn system Cofnod Staff Electronig y Bwrdd Iechyd. Er bod hwn yn ddull strwythuredig o goladu anghenion hyfforddiant staff, yn ymarferol caiff lleoedd ar ddigwyddiadau hyfforddiant eu rhoi i aelodau o staff yn seiliedig ar geisiadau unigol. Dangosodd Adroddiad Integredig ar Berfformiad Tachwedd 2017 mai dim ond 53.3% o staff a gwblhaodd hyfforddiant statudol neu orfodol yn erbyn targed o 85%. Felly, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr ei fod yn defnyddio adnoddau hyfforddi yn y ffordd fwyaf effeithiol i hyfforddi staff yn briodol.
- 138 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ostwng lefelau absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch. Dengys Adroddiad Integredig ar Berfformiad Tachwedd 2017, yn ystod mis Awst a mis Medi 2017, mai'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch oedd 4.8% yn erbyn llinell sylfaen o 5.1% ym mis Mawrth 2017.

- 139 Mae cyfathrebu rhwng pob rhan o'r Bwrdd lechyd yn dda. Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd lle mae rheolwyr yn cyfathrebu ag aelodau o staff ac yn gwrandao arnynt. Fel arfer, mae cyfathrebu ffurfiol yn digwydd drwy strwythurau rheoli ac ategir hyn gan gyswllt tra amlwg a llai ffurfiol rhwng aelodau Gweithredol a staff yn eu lleoliadau gwaith. Mae Aelodau Gweithredol yn mynd i gyfarfodydd staff pan gânt eu gwahodd ac mae cyfleoedd 'Gofynnwch i'r Prif Weithredwr' y Bwrdd lechyd yn galluogi staff i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Weithredwr. Mae Fforwm yr Uwch-Arweinwyr, a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, hefyd yn dod â Chyfarwyddwyr Is-adrannol â'r Pwyllgor Gweithredol ynghyd i drafod materion sy'n dod i'r amlwg.
- 140 Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd. Er i arolwg staff Cymru Gyfan 2016 ddangos gwelliant mewn rhai meysydd ers arolwg 2013, mae meysydd cyfathrebu ac ymatebolrwydd rheolwyr yn broblem o hyd. Cyflwynwyd canlyniadau'r arolwg staff i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2017 ac ymrwymodd i wneud y canlynol:
- datblygu strategaeth gyfathrebu;
 - datblygu a dosbarthu adroddiadau is-adrannol manwl lle y gellir ymdrin â materion penodol gyda thimau rheoli lleol ac o fewn y Cynllun Tymor Canolog Integredig;
 - dadansoddi canlyniadau'r arolwg ymhellach er mwyn nodi materion penodol ar lefel yr is-adrannau neu'r sefydliad; a
 - sefydlu fforwm ymgysylltu â staff/arolygu staff er mwyn nodi materion allweddol sy'n ymwneud â'r sefydliad cyfan a sicrhau yr ymdrinnir â hwy yn effeithiol.

Nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun ystadau nac, ar adeg cynnal ein Hasesiad Strwythuredig, arolygon cyfredol o gyflwr ei adeiladu. Felly, nid yw penderfyniadau ynghylch caffael, cynnal a chadw a gwaredu ei ystad wedi'u rheoli'n strategol

- 141 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli ystadau ac asedau. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 142 Nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun ystadau nac, ar adeg cynnal ein Hasesiad Strwythuredig, arolygon cyfredol o gyflwr ei adeiladau. Felly, nid yw penderfyniadau ynghylch caffael, cynnal a chadw a gwaredu ei ystad wedi'u rheoli'n strategol. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod gwaith wedi'i wneud i ddiweddarau'r wybodaeth am gyflwr stoc yr ystad.
- 143 Mae ystad y Bwrdd lechyd yn cynnwys tua 70 o adeiladau. Caiff arolygon cyflwr a gynhaliwyd dros ddeng mlynedd yn ôl eu diweddarau drwy adolygiad desg. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cael canlyniadau ei arolwg ac iddo chwe agwedd y mae'n disgwyl iddo wella cywirdeb arolygon cyflwr a helpu i gwblhau'r strategaeth ystadau a thargedu'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sydd angen ei wneud ar yr ystad bresennol.

144 Gan nad oes Strategaeth Ystadau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi rhai prosesau ar waith i'w helpu i ddefnyddio ei asedau yn effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad ond nid oes i'r rhain gyfeiriad strategol. Er enghraifft, mae ei Grŵp Adolygu Swyddfeydd yn ystyried ceisiadau am fwy o le neu lai o le mewn adeiladau ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda sefydliad allanol er mwyn sicrhau bod ei adeiladau yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod gwaith wedi'i wneud i ddiweddarau'r wybodaeth am gyflwr stoc yr ystad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol drwy ei Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth a thrwy ymgysylltu, er enghraifft, â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae angen iddo ddiweddarau ei strategaeth ymgysylltu

- 145 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r trefniadau sydd ar waith i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a gweithio gyda phartneriaid. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.
- 146 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â chyrff iechyd eraill. Mae wedi datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sector Iechyd y Cyhoedd, meddygon teulu, y sector Nyrsio Ardal a Rheoli Meddyginiaethau, y trydydd sector ac Arweinydd Clinigol y Bwrdd Iechyd. Nod y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yw:
- bod yn gyfryngau i alluogi newid a hyrwyddo ymgysylltu;
 - hwyluso cydweithredu ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y trydydd sector, gwasanaethau tai a chymunedau lleol;
 - hwyluso'r broses o integreiddio gwasanaethau; a
 - galluogi newid cymysgedd sgiliau'r gweithlu a'r ystad er mwyn helpu i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sector gofal sylfaenol.
- 147 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent a chyfrannodd at y gwaith o ddatblygu asesiadau llesiant. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol ac Aelod Annibynnol yn mynd i gyfarfodydd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'r Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Llesiant yn cael adroddiadau diweddarau rheolaidd wrth i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus barhau i ddatblygu.
- 148 Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd hefyd yng nghyfarfodydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gofalwyr, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tai ac Oedolion ag Anghenion Cymhleth.
- 149 Nododd y Bwrdd Iechyd ei fwriadau i ymgysylltu yn ei Strategaeth Ymgysylltu 'Hearing and acting upon the voice of our staff and citizens', a gyhoeddwyd yn 2014. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys digwyddiadau gwranddo yn 2015 ac mae'n debyg nad yw'n gyfredol mwyach wrth i'r Bwrdd Iechyd baratoi i gyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch ffurf gwasanaethau iechyd newydd drwy ei Strategaeth Dyfodol Clinigol. Bydd yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu fframwaith cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i ddiweddarau a chytuno arno.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau parhaus sy'n gysylltiedig â darparu ac ariannu gwasanaethau technoleg gwybodaeth

- 150 Datblygodd y Bwrdd Iechyd ei Raglen Amlinellol Strategol ar gyfer Gwybodeg ar gyfer 2016-21 a chyflwynodd y rhaglen honno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016. Er ei bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol genedlaethol, nid yw'r rhan fwyaf o'r cyllid cyfalaf a refeniw sydd ei angen i gyflawni'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi'i neilltuo'n llawn eto. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi aifflaenoriaethu'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn seiliedig ar lefelau adnoddau cenedlaethol cynaliadwy sydd ar gael ar hyn o bryd na cheisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y dull gweithredu strategol diwygiedig. Ers hynny, mae wedi datblygu Cynllun Tymor Canolig ar gyfer Gwybodeg 2017-20, sy'n nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer gwybodeg dros y tair blynedd nesaf.
- 151 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i'r is-adrannau gyflwyno achosion busnes arfaethedig dros fentrau a hwylusir gan TG i newid gwasanaethau, sicrhau arbedion effeithlonrwydd a moderneiddio. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd banel aifuddsoddi yn 2017 er mwyn adolygu a herio achosion busnes cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r is-grŵp cyfalaf. Mae'r Adran Wybodeg yn chwarae rôl gynghori allweddol i gefnogi'r broses o ddatblygu achosion busnes a llywio prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch y defnydd gorau o TG a rhoi atebion technoleg diogel a chadarn ar waith.
- 152 Yn hanesyddol, mae Adran Wybodeg y Bwrdd Iechyd wedi bod yn destun lleihad mewn cyllid cyfalaf a refeniw ac, o fewn yr amgylchedd hwn, mae'n ceisio cydbwysu ei hadnoddau a chanolbwyntio ar y canlynol:
- yr agweddau gweithredol ar y gwaith o gynnal a chadw a chefnogi'r seilwaith TG presennol a ddefnyddir ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd o ddydd i ddydd, yn ogystal ag adnewyddu technolegau a systemau sy'n heneiddio er mwyn gwella cadernid systemau, er enghraifft, uwchraddio'r llwyfan desg a ddefnyddir a rheolaethau canolfannau data yn 2017;
 - cymryd cyfrifoldeb am ofynion newydd megis cymorth technoleg ar gyfer mentrau'r Bwrdd Iechyd, er enghraifft, ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Skype ar gyfer mentrau tele-iechyd ac iechyd digidol a Microsoft Office 365 ar gyfer negeseuon e-bost cwmwl ac agweddau TG ar brosiectau cyfalaf newydd, gan gynnwys comisiynu Ysbyty Athrofaol newydd y Grange; a
 - chefnogi mentrau a datblygiadau newydd megis datblygiad technolegau sy'n helpu i drawsnewid gwasanaethau clinigol pan fo angen, er enghraifft, defnyddio ffurflenni electronig i gasglu data electronig, rhoi systemau mawr ar waith yn ogystal â mentrau TG cenedlaethol.
- 153 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu systemau a etifeddodd gan y sefydliadau a'i rhagflaenodd cyn iddo gael ei greu yn 2009, gan gynnwys seilwaith systemau TG sy'n heneiddio a systemau TG a etifeddwyd ganddo sydd angen eu hadnewyddu. Er enghraifft, system Theatrau a systemau eraill sy'n cefnogi swyddogaethau tebyg ar bob un o'i safleoedd, gan gynnwys y system batholeg. Mae hyn yn golygu bod cefnogi'r systemau yn heriol ac y gallai gyfyngu ar y broses o safoni arfer clinigol,

llyfau gwaith effeithlon ar draws safleoedd a chysondeb ac amseroldeb wrth gyflwyno gwybodaeth.

- 154 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu risgiau sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau seiber ac mae'r lefel is o fuddsoddiad mewn seilwaith TG ac adnoddau gwybodeg yn cynyddu'r risg o fgythiadau posibl sy'n gysylltiedig ag ymosodiadau ar seiberddiogelwch. Diweddarodd a chymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei bolisi Gwybodaeth a Diogelwch TG yn ddiweddar yn 2017, a allai helpu i liniaru rhai o'r risgiau hyn os caiff y polisi ei fabwysiadu'n effeithiol gan staff. Er nad effeithiodd ymosodiad seiber 'Wannacry' ar y GIG ym mis Mai 2017 yn ddifrifol ar y Bwrdd Iechyd, effeithiodd ar yr Adran Wybodeg wrth i staff asesu'r bygythiadau ac atgyweirio systemau TG neu eu huwchraddio. Ers ymosodiad seiberddiogelwch 'Wannacry' ar y GIG, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn uwchraddio'r gofrestr o asedau TG ar gyfer y dyfeisiau rhwydwaith a ddefnyddir, yn uwchraddio pwyntiau mynediad diwifr sy'n heneiddio ac yn cyflwyno systemau gweithredu a dyfeisiau newydd yn lle rhai hŷn nas cefnogir megis Windows Server 2003 a Windows XP. Er bod y Bwrdd Iechyd bron â gorffen y gwaith o gyflwyno dyfeisiau newydd yn lle'r rhai sy'n defnyddio Windows Server 2003 a Windows XP, nid oes ganddo adnodd TG penodol o fewn ei Dîm TG i nodi ac asesu risgiau i seiberddiogelwch a mynd i'r afael â hwy gan ddefnyddio dull gweithredu strategol integredig.
- 155 Mae Dangosyddion Perfformiad TG Allweddol y Bwrdd Iechyd yn gul eu ffocws. Maent yn mesur perfformiad megis y ddesg gwasanaeth TG a datrys galwadau, yn hytrach na materion sy'n ymwneud â gwasanaethau allweddol megis achos ac effaith digwyddiadau a chanfod a chywiro diffygion yn rhagweithiol.
- 156 Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi ac yn rheoli materion a risgiau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â gwybodeg ac yn mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys:
- cyflymder, amseroldeb ac effeithiolrwydd cynlluniau cenedlaethol parhaus ar gyfer defnyddio'r systemau TG cenedlaethol sy'n weddill gan gynnwys modiwlau'r System Rheoli Gwybodaeth Labordai, system Adrannau Achosion Brys newydd i Gymru a'r System Gwybodaeth Gofal Cymunedol newydd i Gymru;
 - effeithiolrwydd y cymorth a'r ddarpariaeth gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a monitro lefelau perfformiad gwasanaethau;
 - cynlluniau TG ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer mewn Trychineb sydd wedi cael eu datblygu, eu cymeradwyo a'u profi'n gyson mewn rhai o feysydd Is-adrannol y Bwrdd Iechyd;

- y defnydd posibl o ddyfeisiau wedi'u rhwydweithio nas caffaelwyd neu nas rheolir gan yr Adran Wybodeg, cofnodyddion arian mewn cyfleusterau arlwygo a dyfeisiau meddygol a ddefnyddir gan is-adrannau clinigol. Gallai risg i seiberddiogelwch fod yn gysylltiedig â'r dyfeisiau hyn os oes gwendidau o fewn eu cynllun diogelwch technegol a'u bod wedi'u cysylltu â rhwydwaith TG y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi nifer o ddyfeisiau meddygol a ddefnyddir ar draws is-adrannau, er enghraifft, dyfeisiau monitro fetysau, dyfeisiau uwchsain a sganwyr MI, a allai fod yn defnyddio systemau gweithredu nad ydynt yn gyfredol mwyach ac na ellid eu huwchraddio'n hawdd; a
- phryderon ynghylch storio cofnodion meddygol papur yn ddiogel yn lleoliadau'r Bwrdd Iechyd ac argaeledd cofnodion gofal iechyd pan fo eu hangen.

Atodiad 1

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd ei fewnosod unwaith y bydd y templed ymateb wedi'i gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y bwrdd neu bwyllgor perthnasol y bwrdd.

Arddangosyn 10: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2017 ac ymateb y rheolwyr.

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	Monitro ac adrodd ar gynlluniau arbedion Dylai'r Bwrdd Iechyd roi mwy o fanylion i Swyddogion Gweithredol ac Aelodau Annibynnol mewn perthynas â chynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion. Dylai hyn eu helpu i graffu ar gynlluniau sy'n methu'r targed a'u herio'n ddigonol.	Gwell llwyddiant o ran cyflawni cynlluniau arbedion.	Ie	Do	Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar hyn o bryd yn rhoi crynodeb o gynlluniau arbedion, risg a ph'un a ellir eu cyflawni. Byddwn yn ystyried sut y gellir gwella'r trefniadau adrodd er mwyn sicrhau bod lefel y risgiau o ran cyflawni/risgiau ariannol yn cael eu deall yn glir ar lefel y Bwrdd a lle mae angen i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad graffu ar gynlluniau ymhellach. Mae hyn yn ychwanegol at y wybodaeth fanwl sydd eisoes yn cael ei chynhyrchu'n fisol er mwyn cynorthwyo cyfarfodydd sicrwydd ariannol Is-adrannol.	30 Ebrill 2018	Cyfarwyddwr Cyllid

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A2	<p>Papurau'r Bwrdd a'i bwyllgorau</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth briodol er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau cadarn a chraffu yn effeithiol drwy wneud y canlynol:</p> <p>a. sicrhau bod digon o amser i ystyried eitemau ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd;</p> <p>b. sicrhau bod adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i gylch gwaith y Bwrdd neu'r pwyllgorau;</p> <p>c. darparu gwybodaeth ychwanegol neu wybodaeth gefndir; a</p> <p>d. sicrhau bod adroddiadau ar gyfer agendâu o hyd rhesymol fel y gellir disgwyl yn rhesymol eu darllen cyn y cyfarfod.</p>	Gwneud penderfyniadau mwy hyddysg.	le	Do	<p>Yn ystod 2017 mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud amrywiaeth o waith adolygu mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau ac addasiadau a wnaed lle roedd eu hangen cyn cwblhau'r Asesiad Strwythuredig.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno fformat newydd ar gyfer Adroddiadau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, a fydd hefyd yn gofyn am asesu'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>	<p>Mae amrywiaeth o waith eisoes wedi'i gwblhau ac yn mynd rhagddo.</p> <p>I'w gyflwyno o fis Ebrill 2018.</p>	<p>Ysgrifennydd y Bwrdd</p> <p>Ysgrifennydd y Bwrdd</p>

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A3	<p>Rheoli risg</p> <p>Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei drefniadau rheoli risg er mwyn sicrhau y caiff risgiau corfforaethol eu huwchgyfeirio a'u rheoli'n briodol drwy wneud y canlynol:</p> <p>a. datblygu ei adroddiadau risg cyfredol er mwyn sicrhau y caiff cyd-destun y risg a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ei rheoli eu nodi'n glir; ac</p> <p>b. adolygu'r sgôr risg yn seiliedig ar y camau lliniaru.</p>	Rheoli risgiau yn well.	le	Do	<p>Ymgwymerodd y Bwrdd lechyd ag amrywiaeth o waith i ddiwygio ei ddull o reoli risg gorfforaethol yn 2017 cyn i'r Asesiad Strwythuredig gael ei gwblhau gyda hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Mabwysiadwyd fformatau newydd ar gyfer adroddiadau.</p> <p>Mae'r Bwrdd wrthi'n datblygu ei ddull gweithredu ymhellach a bydd yn cyflwyno fframwaith risg a sicrwydd wedi'i ddogfennu yn dilyn gwaith datblygu arfaethedig yn unol â'r risg na chaiff y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gyflawni.</p>	Parhaus	Ysgrifennydd y Bwrdd
						Diwedd Mai 2018	Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A4	<p>Rheolaeth fewnol</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod archwiliadau clinigol yn rhoi sicrwydd o fewn fframwaith sicrwydd, sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad.</p>	<p>Ffocws cliriach ar risgiau clinigol lleol.</p>	Ie	Do	<p>Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion a'r Pwyllgorau Archwilio wedi mynd ati i ymgysylltu mewn perthynas ag Archwiliad Clinigol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y fframwaith sicrhau ansawdd a diogelwch lle mae Archwiliad Clinigol yn chwarae rôl allweddol. Caiff adroddiadau ar waith archwilio clinigol eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Pwyllgorau hyn a fydd yn craffu arnynt a byddant yn adnodd a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei Gynllun Tymor Canolig Integredig.</p>	Diwedd Mai 2018	Cyfarwyddwr Meddygol/ Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A5	<p>Technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth</p> <p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adnoddau a ddyrennir i feysydd technoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth yn darparu digon o adnoddau i gyflawni cynlluniau'r Bwrdd lechyd.</p>	<p>Eglurder ynglŷn â'r disgwyliadau o ran sicrhau gwell darpariaeth TG gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.</p>	Ie	Do	<p>Datblygwyd Cynllun Amlinellol Strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016, a ofynnodd am ddadansoddiad o gostau i roi Strategaeth E-lechyd a Gofal Llywodraeth Cymru ar waith er mwyn asesu'r goblygiadau posibl o ran adnoddau i Gymru. Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n ailystyried y Cynllun Amlinellol Strategol a'r Strategaeth yng ngoleuni'r cyd-destun ariannol ac mae hefyd wedi datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd ar gyfer Digidol â 10 maes â blaenoriaeth sydd wedi'u cysylltu â'r Cynllun hwn. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnal ymarfer adolygu a meincnodi er mwyn datblygu achos busnes cynaliadwyedd sy'n cydnabod bod angen buddsoddi ymhellach mewn gwasanaethau craidd.</p> <p>Trafodwyd hyn yng nghyfarfod panel cyn buddsoddi ac fe'i rhannwyd hefyd â'r Bwrdd. Mae'n cael ei ddatblygu fel rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2018-19.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi gwneud buddsoddiad sylweddol er mwyn paratoi ar gyfer system Gwybodaeth Gofal Cymunedol</p>	Mawrth 2019	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
					Cymru sy'n un o'r meysydd allweddol â blaenoriaeth ac yn un o ffactorau galluogi allweddol yr agenda integreiddio. Cydnabyddir y caiff y buddsoddiad hwn ei ddefnyddio hefyd i gynnal y rhaglen waith ehangaf a mwyaf cymhleth ers peth amser.		
A6	Rheoli ystadau Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Strategaeth Ystadau sy'n adlewyrchu cyflwr presennol ei adeiladau ac yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.	Eglurder ynglŷn â chynlluniau hirdymor ar gyfer yr ystad er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau.	Ie	Do	Yn ddiweddar cwblhaodd y Bwrdd Iechyd arolwg ac iddo chwe agwedd o gyflwr ei holl safleoedd er mwyn darparu canllawiau a thystiolaeth ar gyfer adolygiad llawn strategol o ystadau. Caiff yr arolwg hwn ei ddatblygu'n strategaeth ystadau eang cyffredinol ochr yn ochr â'r rhaglen dyfodol clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.	Medi 2018	Prif Swyddog Gweithredu
A7	Ymgysylltu Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddarau'r Strategaeth Ymgysylltu – 'Hearing and acting upon the voice of our staff and citizens'.	Cynllun cyfredol sy'n dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ymgysylltu â staff a dinasyddion.	Ie	Do	Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad ac yn diweddarau ei Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion yn unol â'r Rhaglen Dyfodol Clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.	Gorffennaf 2018	Prif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Cyswllt Ymgysylltu

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Derbyniwyd (do/naddo)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
					Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i ddatblygu ei raglen ymgysylltu â staff yn unol â'r Rhaglen Dyfodol Clinigol.	Parhaus ac yn cael ei adolygu bob mis fel rhan o'r Bwrdd Cyflawni Dyfodol Clinigol.	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru